

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Chwefror 2015

Rhif 452

50c

Brwydro yn Erbyn Blerwch



Rhai o aelodau Balchder Bro Ogwen, Y Cyng. Ann Williams, Neville Hughes, Dafydd Owen, Godfrey Northam a Paul Rowlinson.

Daeth criw bach o aelodau Balchder Bro Ogwen ynghyd ar gyfer eu sesiwn cyntaf eleni o waith gwirfoddol yn hel sbwriel yn Nyffryn Ogwen. Canolbwyntiodd un grŵp ar y caeau wrth ymyl Plas Ffrancon ac aeth grŵp arall i hel sbwriel ar ran o Lôn Las Ogwen, yn barod ar gyfer gorymdaith a gynhelir i ddathlu Gŵyl Ddewi. Trefnir yr orymdaith gan Gyngor Cymuned Bethesda ac fe'i cynhelir ddydd Sul 1 Mawrth am 1.30 y prynhawn.

Dywedodd y Cyng. Ann Williams, sy'n aelod o'r grŵp:

"Dwi'n ddiolchgar iawn i'r criw a ddaeth allan unwaith eto i hel sbwriel ym Methesda. Mae Balchder Bro wedi trefnu nifer o sesiynau o'r fath yn y gorffennol ac mae'n braf gweld bod eu brwdfrydedd a'u hawydd i dcluso Dyffryn Ogwen yn dal yn gryf. Gwnaethon ni lenwi 14 o sachau â sbwriel, yn ogystal â chlirio nifer o eitemau mwy, fel olwyn car ac mae'r ardal yn fwy taclus o lawer. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at orymdeithio o Ddolgoch i Fethesda ar hyd Lôn Las Ogwen i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant ymhen pythefnos.

"Dwi hefyd yn ddiolchgar i staff a gweithwyr Cyngor Gwynedd am gydweithio â ni. Roeddwn i wedi gofyn iddyn nhw ddod i gasglu'r bagiau roedd criw Balchder Bro Ogwen wedi'u hel ac fe wnaethon nhw wneud hynny yn brydlon iawn. O dan gynllun Cyngor Gwynedd, Eryrod Eira, bu rhai o aelodau Balchder Bro yn helpu i roi halen ar balmentydd y Stryd Fawr, Maes y Garnedd a Ffordd y Stesion pan gawsom eira yn ddiweddar a dwi'n edrych ymlaen at gydweithio gyda nhw i drefnu mwy o sesiynau hel sbwriel eleni.

Rydym i gyd yn awyddus i wneud Dyffryn Ogwen yn lle y gall pawb fod yn wirioneddol falch ohono."

Bydd Balchder Bro Ogwen hefyd yn gosod basgedi crog a baratoir gan Fenter Fachwen ar Stryd Fawr Bethesda bob blwyddyn a bydd y criw wrthi yn gosod rhai newydd cyn yr haf. Mae'r grŵp cymunedol yn gallu gwneud hyn diolch i grantiau y maent wedi'u derbyn gan Gyngor Bethesda.

Mae Balchder Bro Ogwen yn agored i bawb o bob oedran sydd eisiau gwneud rhywbeth ymarferol i wella'r ardal a'i gwneud yn fwy deniadol. Os hoffai rhywun helpu neu awgrymu lle cyn sydd angen ei glirio, gallan nhw gysylltu â Paul Rowlinson, ysgrifennydd y grŵp, ar y rhif (01248) 605365 neu paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk.

Ysgol Dyffryn Ogwen ar y Brig Unwaith eto

Penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad osod bob ysgol yng Nghymru mewn un o 4 categori – gwyrdd, melyn, oren neu goch – yn ddibynnol ar sut mae'r ysgol yn perfformio ar hyn o bryd a pha gefnogaeth sydd ei angen ar yr ysgol i wella. Ysgol Dyffryn Ogwen oedd yr unig ysgol uwchradd yng Ngwynedd a Môn i gael ei gosod yn y categori gwyrdd – sydd yn dweud fod yr ysgol eisoes yn perfformio'n rhagorol, ac nad oes angen unrhyw gymorth allanol i wella. Mae hyn yn dipyn o glod i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol – yn Llywodraethwyr, staff a disgyblion. Llongyfarchiadau calonnog i bawb ohonynt.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 07940
dewision@hotmail.co.uk 905181

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard ☎ 07402
trystanrp1@gmail.com 373444

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Dewi
Llewelyn Siôn.

Golygydd mis Mawrth fydd Trystan
Pritchard, 27 Allt Penybryn, Bethesda,
LL57 3BD. 07402 373444.
Ebost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,
4 Mawrth, os gwelwch yn dda. Plygu nos
Iau, 19 Mawrth, yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

**Ariennir yn rhannol
gan Lywodraeth Cymru**

DYDDIADUR Y DYFFRYN

2015

Chwefror

- 25 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
- 26 Merched y Wawr Bethesda. Pedwarawd
y Fenai. Caffi Coed y Brenin am 7.00.
- 27 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
- 28 Marchnad Pesda.
Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30
- 28 Bore Coffi Plaid Cymru.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 28 Pesda Roc – Steve Eaves a Lleuwen
Steffan. Neuadd Ogwen am 7.30.

Mawrth

- 01 Cyngerdd Gŵyl Ddewi.
Capel Jerusalem am 7.00
- 01 Gorymdaith Gŵyl Ddewi am 1.30.
Cyngerdd yn Neuadd Ogwen am 2.30.
- 02 Merched y Wawr Tregarth. Noson Allan
i Ddathlu Gŵyl Ddewi ac Adloniant.
- 05 Sefydliad y Merched Carneddi. Dathlu
Gŵyl Ddewi yng nghwmni Elfed
Morgan Morris. Cefnfaes am 7.00.
- 07 Bore Coffi Capel Jerusalem.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 09 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen.
Dr. J. Elwyn Hughes.
Festri Jerusalem am 7.00.
- 12 Cymdeithas Jerusalem. Olwen Williams
Sgwrs am y Seintiau. Festri am 7.00
- 14 Marchnad Ogwen.
Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.
- 14 Cyngerdd CALAN.
Neuadd Ogwen am 7.30.
- 19 Plygu Llais Ogwan.
Cefnfaes am 6.45.
- 21 Marchnad Pesda.
Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30
- 21 Bore Coffi Eisteddfod D. Ogwen.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 21 Cyngerdd Elusenol at “M. S.” yn
Neuadd Ogwen am 7.00.
- 22 Cyfarfod Sefydlu'r Parchg. John
Pritchard. Capel Carmel Llanllechid
am 5.00
- 24 Cangen Dyffryn Ogwen Plaid Cymru.
Cefnfaes am 7.00.
- 28 Bore Coffi Plaid Lafur.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 28 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00

**Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan**

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Rhoddion i'r Llais

- £50.00 Glenys, Buddug a Bernard er cof
am mam, sef Mrs. Margaret Jones,
22 Bron Bethel, Rachub, a fu farw
yng Nghartref Cerrig yr Afon ar 21
Chwefror 2014.
- £10.00 Er cof annwyl am Brian Parry, 45
Abercaseg, Bethesda, oddi wrth
Joan a'r teulu.
- £14.50 Mrs. Eurwen Griffith,
5 Rhes Mostyn, Bethesda.
- £5.00 Derek a Norma Griffiths,
46 Abercaseg, Bethesda.
- £8.00 Don Hughes, Halifax.
- £28.00 Mrs. Jennie Jones,
11 Bryn Caseg, Bethesda.
- £10.00 Parchg. Geraint a Mrs. Ann
Hughes, Pwllheli.
- £22.00 Di-enw, Llandygái.
- £10.00 Mrs. Gwyneth Morris,
Gwaen Gwail, Gerlan.
- £2.50 Brenda Hughes, 5 Arafa Don,
Bethesda.
- £10.00 Mr. Ken Jones, Edgware, Llundain.
- £6.00 Mr. Huw Brown, Y Swisdir.
- £5.00 David a Glenda Roberts,
10 Glanogwen, Bethesda.
- £10.00 Er cof am y ddiweddar Elizabeth
Jane Jones, Stryd Bryn Owen, oddi
wrth Gareth, John, Sandra a Leah
a'r plant.
- £10.50 Deri a Megan Tomos, Sychnant,
Llanllechid.
- £10.00 Mrs Mair Pritchard, Llandudno.

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar gasét bob mis,
cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Chwefror

- £30.00 Huw Derfel Jones, Gerlan.
- £20.00 Augusta Williams,
Bron Arfon, Rachub.
- £10.00 Glyn Davies, Llanfairpwll.
- £ 5.00 Glenys Clark, Tregarth.

Annwyl Ddarllenwyr

SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN
MEHEFIN 13eg 2015

Gwaith Llaw
Dosbarth

- 57. Eitem wedi ei wau â llaw (edafedd dwbl)
- 58. Eitem wedi ei wau â llaw (edafedd 4 ply)
- 59. Eitem neu ddilledyn wedi ei wau â llaw (unrhyw edafedd)
- 60. Gorchudd tebot (unrhyw gyfrwng)
- 61. Eitem yn dangos clytwaith
- 62. Eitem yn dangos pwyth croes (agored)
- 63. Cerdyn cyfarch (unrhyw gyfrwng)
- 64. Bag (unrhyw gyfrwng)
- 65. Eitem defnyddiol i'r cartref
- 66. Unrhyw eitem wedi ei wnio
- 67. Unrhyw eitem gan ddefnyddio gleiniau (beads)
- 68. Clustog (unrhyw gyfrwng)
- 69. Rhywbeth newydd o rywbeth hen.
- 70. Unrhyw eitem heb fod yn y rhaglen uchod e.g. crosio, brodwaith , looms, macramé a.y.b.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch a Gwyneth Morris, rhif ffon (01248 600596)

Threnody

Mae'n ofynnol i lawer ohonom drefnu angladd ar adegau, i ffarwelio â pherthynas agos.

Gall ein dewis o gerddoriaeth gysuro pawb sy'n galaru, ble bynnag y cynhelir y gwasanaeth. Gyda phrofiad helaeth o ganu o'n repetoire win hunain yn ddigysfeiliant, neu trwy fof yn gefn i ganu cynulleidfaol mwe THRENODY yn gallu creu awyrgylch arbennig ac ystyrriol ar gyfer pobl o unrhyw ffydd neu i'r sawl sydd heb ffydd.

Rydym yn arfer drbyn cyfraniad tuag at ein costau teithio yn unig. Cewch wrando ar CD y Côr a thrafod eich dymuniadau personol trwy gysyllu â Tim Clark (07747 600 830, ebost tcerrig@btinternet.com, neu Rosie Waite (0772 584533) rosie.waite@yahoo.com.

Hongian dros y Gymraeg

Mae prosiect newydd Hongian.cymru wedi dechrau yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog a Dyffryn Ogwen yn ddiweddar a dros y ddau fis nesaf, bydd criwiau o bobl ifanc yn cael eu tywys a'u hyfforddi mewn sgiliau boldro, dringo a defnyddio rhaffau. Byddant hefyd yn cael profiad o lunio cynnwys digidol i wefan www.hongian.cymru sef gwefan sy'n hyrwyddo llwybrau dringo a boldro yn yr ardaloedd hyn. Mae'r holl brosiect yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg efo'r pwyslais ar gael y pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae hefyd yn helpu ein pobl ifanc i ymddiddori yn y maes awyr agored, sy'n gyflogwr pwysig yn y ddwy ardal.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu trwy gronfa Bwrw Mlaen Llywodraeth Cymru ac yn cael ei redeg ar lawr gwlad gan gynllun Gwallgofiaid Blaenau Ffestiniog mewn partneriaeth â Partneriaeth Ogwen. Meddai Rhys Roberts, Rheolwr Gwallgofiaid,

"Mae Blaenau a Bethesda yn ddwy ardal ble mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac mae sicrhau cyfleoedd cyffrous i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol yn y ddwy ardal. Mae'r prosiect yn barhâd o'r gwaith mae Gwallgofiaid wedi ei ddechrau ym Mlaenau Ffestiniog a mae'n wych gallu gweithio efo Partneriaeth Ogwen i ehangu ein gwaith i fro chwarelyddol arall."


Bydd Hongian.cymru yn gweithio â Urdd Gobaith Cymru i arwain pobl ifanc ar sesiynau boldro ar yr 20fed o Chwefror a chynhelir gweithdai i greu cynnwys digidol i wefan Hongian.cymru yn cael eu cynnal yn Neuadd Ogwen ym mis Mawrth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rhys Roberts, Gwallgofiaid neu Meleri Davies, Partneriaeth Ogwen.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Hywel Williams AS

Llais cryf a lleol dros Arfon



“Da ni wedi bod yn lwcus iawn o gael Hywel yn ein cynrychioli fel Aelod Seneddol dros y bum mlynedd diwethaf. Mae wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd ym mhob rhan o Ddyffryn Ogwen ac wedi helpu cannoedd o etholwyr, gan ennill nifer o achosion. Mae fy etholwyr yn gwerthfawrogi'r hyn mae Hywel yn ei wneud ac am ei bresenoldeb cyson yn Nyffryn Ogwen. - Cynghorydd Ann Williams

ETHOLIAD CYFFREDINOL SAN STEFFAN
DYDD IAU | 07 MAI | 2015



Hyrwyddwyd gan Llyr ab Alwyn | 3 Bythynnod Dinas | Dinas | Caernarfon | LL54 5UA ar ran Hywel Williams AS Plaid Cymru | 8 Stryd y Castell | Caernarfon | LL55 1SE

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

Dyweddiad
Llongyfarchiadau i Siôn Richards o Sling a Lowri Jones o Benmachno ar eu dyweddiad yn ddiweddar a phob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd ym Mhenybryn, Bethesda, gan y teulu i gyd.

Diolch
Hoffai Karen Roberts, Coetmor, ddiolch i bawb a gyfrannodd a’i chefnogi ar gyfer y “Shire Walk” (26 milltir) yn Llundain ym mis Medi. Llwyddodd i gasglu dros £1,000 tuag at Ymchwil Canser.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Amy Smith am basio arholiad MA Gwaith Cymunedol gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Manceinion. Mae Amy yn ferch i Andrew a Lynda Smith, Bodarfryn, Ffordd Bangor, ac yn wyres i Gwenda Jones, Glanffrydlas, Bangor.

Priodas Aur
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Billy ac Olive Williams, 6 Maesygarnedd ar achlysur hapus dathlu eu priodas aur ar 14 Chwefror.

Pen-blwyddi Arbennig
Pen-blwydd hapus iawn i Mr Jim Amos, Glanogwen a ddathodd ei ben-blwydd yn 90 oed ar 19 Ionawr.

Hefyd ar ddiwedd Ionawr, dathlodd Mrs Megan Hughes, Rhos-y-coed, ei phen-blwydd yn 80 oed. Pen-blwydd hapus iawn i chi.

Ysbyty
Ers dechrau’r flwyddyn bu sawl un yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn. Cofion cynnes iawn atoch, ac at y cyfeillion sy’n sâl gartref.

Mrs Bethan Jones, Maes yr Athro;
Mrs Carol Owen, Maesygarnedd;
Mr Michael Ford, Bryn Caseg;
Mr Dewi Hughes, Glanffrydlas;
Mrs Nancy Owen, Bryntirion;
Mrs Jean Jones, Maesygarnedd;
Mrs Bet Owen, Glanffrydlas;
Mr Joe Evans, Glanffrydlas;
Mr a Mrs Thomas Jones, Rhos-y-coed;
Miss Violet Williams, Adwy’r Nant.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:

Mr Wil Jones a’r teulu,
9 Maesygarnedd ar golli ei fab-yng-nghyfraith, Mr Peter Foot.

Mr Rhys Parry a’r teulu, Stryd Glanrafon, ar golli tad a thaid annwyl, Mr Elwyn Parry.

Mr a Mrs Dafydd G. Jones a’r teulu, Pant Glas ar golli ei frawd-yng-nghyfraith, Mr Elwyn Parry

Teulu y diweddar Mrs Maureen Roberts, Tal-y-cae, Tregarth, gynt o Fethesda.

Mrs Rhiannon Parry a’r teulu, yr Wyddrug ar golli priod, tad a thaid annwyl.

Gorffwysfan, Stryd Fawr
Cynhelir cyfarfod o’r Pwyllgor dydd Llun 2 Mawrth am 11.00 o’r gloch. Croeso i’r aelodau i gyd.

Profedigaethau

Mr Frank Winston Down
Ar 1 Ionawr yng Nghartref Nyrsio Penisa’r Waun, bu farw Mr Frank Winston Down, 5a Victoria Place, Stryd Fawr, yn 74 oed. Tad Edward a Simon a thad-yng-nghyfraith Gillian a thaid Abbie a Lewis. Roedd Frank yn adnabyddus i bawb yn y Stryd Fawr ac yn barod ei sgwrs. Roedd yn hoff o bysgota a chymdeithasu. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 9 Ionawr, gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Ganon Idris Thomas. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu a chyfeillion agos a fu mor garedig tuag at Frank.

Mrs Annie Parry
Ar 5 Ionawr wedi salwch hir, bu farw Mrs Annie Parry, 43 Adwy’r Nant yn Ysbyty Gwynedd yn 82 oed. Roedd yn briod annwyl i’r diweddar Mr Bobby Parry, ac yn fam hoffus a charedig i Gwyn, David a’r diweddar Geraint a John, ac yn nain a hen nain annwyl. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen a mynwent Coetmor, ddydd Llun 12 Ionawr, gyda’r ficer, y Parchedig John Matthews, yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Mr Hywel Thomas Morgan
Yn sydyn ar 7 Ionawr 2015 yn yr ysbyty, bu farw Mr Hywel Thomas Morgan (Twm) o 9 Glanogwen yn 81 oed. Priod annwyl a charedig i Mrs Vera Morgan, tad gofalus i Gwyn, Dylan a Nerys a thad-yng-ghyfraith i Richie. Taid hoffus i Alun, Arwen, Aron, Elin a Harri. Brawd a brawd-yng-nghyfraith i Hefin a Rosemary (Seland Newydd) a brawd i’r ddiweddar Morfudd Jones ac ewythr caredig i nifer.

Cafodd Twm ei eni yn ardal Aberystwyth ac yna symud i’r Gerlan pan yn blentyn. Bu’n gweithio yn chwarel y Penrhyn am ran helaeth o’i oes. Hoff orchwyl Twm oedd canu, a bu’n aelod o Gôr y Penrhyn am dros 60 o flynyddoedd ac yn uchel ei barch gan yr aelodau. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Jerusalem a’r Gerlan gynt, yn aelod o Glwb y Gerlan a Gorffwysfan, Stryd Fawr.

Cynhaliwyd ei angladd fore Iau, 15 Ionawr gyda’r gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Ddr Huw John Hughes a



Priodas
Llongyfarchiadau i Ffion Mai Roberts a Dewi Lloyd Jones ar achlysur eu priodas ar 30 Rhagfyr 2014 yng Ngwesty’r Cei, Deganwy. Mae Ffion Mai yn ferch i David Alun a Glenda Roberts, 10 Glanogwen, a Dewi Lloyd yn fab i Tudor ac Olwen Jones, Fferm Coed Hywel, Glasinfryn. Pob dymuniad da iddynt yn eu bywyd priodasol gan y ddau deulu.

chladdwyd ei lwch ym mynwent Coetmor.

Cydymdeimlwn â chwi Vera, Gwyn, Dylan a Nerys a’r teulu i gyd yn eich hiraeth am briod, tad a thaid annwyl a hoffus iawn.

Mrs Ann Elizabeth Jones
Ar 15 Ionawr, yn dawl wedi salwch hir, bu farw Mrs Ann Elizabeth Jones (Evans gynt) o 22 Erw Las. Priod hoff Mr Dilwyn Jones a’r diweddar Mr Gwynfor Evans a mam annwyl y ddiweddar Donna. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Llun 26 Ionawr, gyda gwasanaeth yn Eglwys Maesygroes, Talybont, ac yna yn amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch Mr Jones, a’r teulu i gyd ar golli Ann.

Mrs Elsie Jean Parry
Ar 29 Ionawr bu farw Mrs Elsie Jean Parry, Llangefni, gynt o Adwy’r Nant y 85 oed. Priod annwyl y diweddar Mr Tommy Parry, chwaer Ann, Llangefni, a’r diweddar Arwyn, a modryb garedig i Lodwig ac Eysyllt a’u teuluoedd. Aeth i fyw gyda’i chwaer Ann i Langejni fis Mai diwethaf am bod ei hiechyd yn fregus. Roedd yn berson tawel a bonheddig iawn. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor fore dydd Iau, 5 Chwefror. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

Mr Derek Williams
Ar 30 Ionawr yng Nghartref Cerrig yr Afon, y Felinheli, yn 80 oed bu farw Mr Derek Williams, 8 Arafa Don, Stryd Fawr, gynt o Fraichmelyn. Priod y ddiweddar Mrs Beryl Williams, tad Shirley a Wendy, taid a hen-daid i nifer, a brawd i Mr Keith Williams. Cynhaliwyd ei angladd fore Mawrth 10 Chwefror, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen ac Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Mrs Dawn Roberts
Ar 23 Ionawr, bu farw Dawn Roberts, Penrhyncoch, Aberystwyth gynt o 13 Ystâd

Coetmor, Bethesda. Cynhaliwyd yr angladd ddydd Mawrth 3 Chwefror yn Eglwys St John, Penrhyncoch ac fe’i claddwyd ym mynwent Llandrillo, Corwen. Cydymdeimlwn â’i phriod, Edward, a’r plant Gareth a Claire yn eu profedigaeth. Cyn i’r teulu symud i ardal Aberystwyth rai blynnyddoedd yn ôl, roedd Gareth a Claire yn ddisgyblion yn Ysgol Llanllechid ac roedd y teulu yn aelodau o Gapel Carmel.

Gair o Ddiolch
Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Joan Mary Morris, 38 Adwy’r Nant, sef Meirion, Alison a Vera, ddiolch yn fawr iawn i’r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad trwy gerdyn, galwad ffôn neu ymweliad â hwy yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain annwyl. Diolch am y rhoddion hael o £400 tuag at gronfa Crone’s a Colitis UK. Diolch i’r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth ddydd yr angladd a diolch i Mr Gareth Williams, Garneddwen am ei drefniadau tawel a pharchus.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Bore Coffi

Bore Sadwrn 28 Mawrth
yng Nghaffi Coed y Brenin
10.00 tan 12.00

Croeso i Bawb

Capel Bethania

Trefn Gwasanaethau

1 Mawrth:
Parch. Dafydd Coetmor Williams

15 Mawrth:
Parch. Gwynfor Williams

Oedfaon am 5.30 o’r gloch
Croeso cynnes i bawb

Yr Eglwys Unedig

Cofiwn am ein holl aelodau a’n cyfeillion sy’n wael. Deallwn fod Glenys yn ôl yn yr Ysbyty, a Megan wedi cael dychwelyd gartref gyda gofal. Bendithiwn y rhai oll sydd gartref yn llesg ac unig neu mewn cartref preswyl.

Dechreuwyd y mis gyda Chyfarfod Gweddi dan arweiniad Alwenna gydag Elena a Neville yn cynorthwyo i gyfeiliant Gwenno.

Nos Iau, yr 8fed cynhaliwyd y Gymdeithas dan lywyddiaeth Minnie. Y gŵr gwadd oedd yr Athro Deri Tomos, a thestun ei ddarlith oedd ‘Lliwiau’. Agorodd y ddarlith gyda’r frawddeg ‘Cafodd Owain Meilir grêyr glas i frecwast’ sydd yn ffordd wych i blant allu cofio lliwiau’r enfys. Aeth ymlaen i sôn am warchodliw ymysg creaduriaid, lliw gwyn yr haul yn hollti’n lliwiau drwy ddafnau yn yr awyrgylch a llawer mwy. Rhoddwyd diolchiadau haeddiannol iddo gan Neville ac i’r merched am ddarparu’r baned.

Ar y 7fed, bu farw un o selogion yr Eglwys, sef Tom Morgan, a rhoddwyd teyrnged ardderchog iddo gan Ceri yn ei chyhoeddiadau fore Sul, yr 11eg. Daeth y gair ‘Ffyddondeb’ i’w meddwl gan fod Tom yn aelod ffyddlon o Gôr y Penrhyn ers blynyddoedd maith, ac yn ffyddlon i’w gapel ac yn bennaf oll i’w deulu. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Vera, Dylan, Gwyn, Nerys a’r teulu i gyd yn eu colled enfawr, a bydded bendith arnynt.

Y Plygain

Unwaith eto eleni roedd y Plygain dan arweiniad Ceri, fel un sydd wedi treulio ei mebyd mewn bro lle mae’r plygain yn draddodiad. Agorwyd y plygain drwy ganu’r garol ‘Cofio Crist’, sef ffefryn Tom, a fu’n canu’r garol fel unawdydd, ac mae geiriau’r cytgan yn dweud y cwbl amdano.
Gŵyl Nadolig cofia’r unig,
Cofia’r tlawd a’r truan trist,
Cofia blant na welodd aelwyd,
Cofio’r rhain yw cofio Crist.

Yr artistiaid yn cymryd rhan oedd Boncathod, Parti Merched y Capel, aelodau o Gôr y Dyffryn, Parti dynion, deuawd gan Buddug a Cadi a Pharti’r Ddau Deulu. Cafwyd paned a bara brith i ddilyn a mawr yw ein diolch i bawb am y ddarpariaeth. Diolchwn hefyd i Walter a Menai am drefnu gyda Ceri i sicrhau fod y noson yn llwyddiant ysgubol, ac i Menai, wrth gwrs am gyfeilio.

Ar yr 20fed cynhaliwyd Clwb Nos Fawrth dan arweiniad Alwenna gydag Anna Jane o Gymorth Cristnogol yn sôn am drueiniaid y trydydd byd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Mair Owen, Ffordd Carneddi a meddyliwn amdanynt yn eu hiraeth. Hefyd cydymdeimlwn â Menna Roberts, Llys Artro sydd wedi colli ei mam. Meddyliwn am Derfel a’r teulu i gyd yn eu colled.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchwn Joe Evans ar ddod yn hen daid i Llio Gwyn.

Oedfaon i ddod.

Chwefror 22	Parch Brian Wright.
Mawrth 01	Oedfa Gŵyl Ddewi (10.00) Parch.G.Roberts (5.00)
Mawrth 08	Parch Ddr. Elwyn Richards.
Mawrth 15	Parch Ieuan Lloyd (10.00) Parch G.Edwards (5.00)
Mawrth 22	Parch Cledwyn Williams.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar 5 Chwefror y cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf o’r flwyddyn oherwydd ein bod wedi gohorio cyfarfod mis Ionawr. Dymunodd ein llywydd, Mrs Margaret Williams, flwyddyn Newydd Dda hwyr i’r aelodau i gyd gan obeithio bod pawb yn edrych ymlaen at flwyddyn lewyrchus oherwydd bod Sefydliad y Merched yn dathu’r canmlwyddiant eleni.

Daeth nifer fechan o ymddiheuriadau gan rai o’r aelodau oherwydd anhwylder ac aeth Margaret ymlaen i gydymdeimlo â dwy o’r aelodau, sef Glenys Jones a gollodd ei brawd-yng-nghyfraith, Tom Morgan, a Beti Jones, hithau wedi colli brawd- yng-nghyfraith, sef Griff Williams o Rachub. Anfonodd ein cofion at deulu Mair Owen o Garneddi a fu’n aelod ffyddlon iawn o’r sefydliad am flynyddoedd cyn ei salwch. Cofion dwys atoch fel teulu. Anfonwyd ein hatgofion hefyd at Violet Williams.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan ein hysgrifennydd newydd, Gwyneth Morris, a darlennodd Margaret Williams y llythyr misol, gan gynnwys y gweithgareddau sydd i ddigwydd yn 2015 fel rhan o’r dathliadau.

Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Marcus Robinson, yn wreiddiol o Gaernarfon ond yn byw ym Methel erbyn hyn. Dechreuodd ei yrfa fel caplan yn y llynges ond erbyn hyn y mae’n gyfrifol am dair eglwys ar dir sych ac yn ddyn prysur iawn.

Ei bwnc am y noson oedd trafod gwahanol winoedd. Deilliodd ei ddiddordeb yn y maes oddi wrth ei dad, a oedd yn arbenigwr ar winoedd. Cawsom hanes y llefydd gorau sy’n cynhyrchu gwin gwyn a choch. Yr oedd yn noson ddifyr iawn ac mae am ddod yn ôl gyda gwin i ni ei brofi y tro nesaf! Mae pawb yn edrych ymlaen at hyn!

Diolchwyd iddo gan Rita Bullock, a diolchwyd i’r merched am y lluniaeth. Enillwyd y wobwr lwcus gan Ceri Dart, yn rhodd gan Bess Buckley.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo’n fawr gyda Dylan Morgan, Stryd y Ffynnon, yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei dad, y diweddar Tom Morgan, Glanogwen. Un o hogiau’r Gerlan oedd Tom, ac wedi treulio llawer iawn o’i oes yma gyda’i briod, Vera, a’i deulu, cyn symud i lawr i Lanogwen rai blynyddoedd yn ôl. Pob cydymdeimlad yn dy golled fawr, Dylan.

Adref o’r ysbyty

Gyrrwn ein cofion at Tony Owen, Ciltwillan, a dreuliodd gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth. Rydym yn falch o’th weld adref , Tony, a gyrrwn bob dymuniad am wellad llwyr a buan i ti

Llwyddo mewn prawf gyrru

Llongyfarchiadau mawr i Craig Castello, Stryd y Ffynnon, ar lwyddo yn ei brawf gyrru. Pob hwyl iti ar y ffordd yn awr, Craig.

Genedigaeth

Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau i Rich a Bethan, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth mab bychan, Dei Madog. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Chris o’Marah, Gwernydd, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae Chris adref bellach, a gobeithiwn dy fod yn gwella’n dda. Pob dymuniad da gennym oll iti, Chris.

Nain a thaid

Llongyfarchiadau i Shirley a Phil Williams, Ciltrefnus, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed merch fach,

Mali Jôn i’w merch Caryl a’i phartner, Iestyn, sy’n byw ym Methesda. Rydym yn siwr fod pawb, yn arbennig brodyr mawr Mali, Cameron a Kieran, wedi gwirioni ar y fechan.

Croeso

Croeso i Carrie Rimes yn ôl i’r Gwernydd wedi iddi dreulio cyfnod yn byw yn Ffrainc. Rydym i gyd yn falch iawn o dy weld yn ôl yn y pentref.

Enwebu am wobwr

Llongyfarchiadau mawr i Lisa a Martin, Gwernydd, ar i’w grŵp 9bach gael eu henwebu am wobwr Gwerin Radio 2. Mae’r grwp wedi cyrraedd y rhestr fer o 5 ar gyfer y wobwr ar sail eu halbwm diweddaraf Tincian. Mae hyn yn llwyddiant mawr, ac yn dangos mor arbennig o dda ydy 9bach, a Lisa a Martin. Hwy yw’r grwp neu unigolyn Cymraeg cyntaf erioed i gael eu henwebu ar gyfer y wobwr hon. Erbyn y bydd y rhifyn hwn o’r Llais wedi dod o’r wasg bydd enwau’r enillwyr wedi eu cyhoeddi, a gobeithiwn yn fawr iawn mai 9bach fydd yn fuddugol.

Dymuniadau gorau

Rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau i Nerys, gynt o Giltrefnus, ond sydd bellach yn byw yn Wrecsam. Mae Nerys yn ferch i Pam Roberts, Ciltrefnus. Nid yw Nerys wedi bod yn dda yn ddiweddar, ac mae wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Rydym yn falch o glywed ei bod bellach yn gwella. Pob dymuniad da am wellad llwyr a buan iti

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Siân Hughes, Stryd Morgan, ar gael ei phenodi yn Ofalwraig i Ysgol Abercaseg yn dilyn ymddeoliad Jean Thomas, Abercaseg. Pob llwyddiant i ti yn dy swydd newydd, Siân.

Nain a thaid

Rydym yn llongyfarch David a Siân Roberts, Ffordd Gerlan, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd Mali Efa i ferch David, sef Ffion, a’i phartner David, sy’n byw yng Nglanogwen. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub
LL57 3LW
☎ **601880**

Clwb yr Henoed
Yng nghyfarfod olaf y flwyddyn estynwyd croeso i'r aelodau ac hefyd i nifer o aelodau sydd wedi derbyn triniaethau yn dilyn damweiniau yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd a Vera Morgan yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Tom.

Daeth Mrs Ceri Dart atom ar fyr rybudd gyda sgwrs ddiddorol ac amserol iawn ar hanes y Plygain yn Sir Drefaldwyn.

Bu'r aelodau yn brysur ar ddiwedd y flwyddyn yn hel c'lennig at goffra'r Clwb, pan gynhaliwyd cystadleuaeth ar ffurf Sgwar Cant. Yr enillwyr oedd: £25 - Mrs Margaret Owen, Potel Win - Brenda Williams, Bocs siocled - Misty, Tun o siocled - Susan Evans, Bocs Bisgedi - Margaret Swift. Enillodd y canlynol nwyddau ymolchi - Cara, Joan Parry ac Eirlys Evans, Siocled - Dylan Morgan a bocs bisgedi - Myfanwy Jones.

Mae'r aelodau am ddiolch i bawb a gyfrannodd drwy brynu sgwâr neu roi y gwobrau.

Cydymdeimlo
Bylchodd Ionawr eleni yr ardal yn arw gan adael nifer o deuluoedd lleol mewn gofid a galar.

Yn Ysbyty Gwynedd ar y 10fed o'r mis bu farw Elizabeth Jane Jones, Stryd Bryn Owen a hithau'n 69 mlwydd oed. Cafodd Mrs Jones ddamwain ar ddechrau'r flwyddyn pan dorrodd ei chlun. Syndod i bawb ac yn enwedig i'r teulu fu'r newydd am ei marwolaeth, gwta dair blynedd a hanner ers coll ei gŵr Hughie Glyn. Hannai Mrs Jones o Nottingham a phan ddaeth i weithio i Fangor cyfarfu â Hughie yn y gwaith. Anfonwn ein cydymdeimlad at Gareth a John, Sandra a Leah, y plant Elen, Deiniol, Twm a Megan a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd yr angladd dan ofal y Parch Dafydd Coetmor Williams ar Ionawr 20ed.

Wedi cystudd hir bu farw Griffith Williams, (Griff Siop), Ffordd Llanllechid, ar 19 Ionawr ac yntau newydd gael eu ben blwydd yn 80 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad a'n cofion at ei, weddw, Eirwen, y plant Gwyn ac Einir, Menna ac Elfed, Llinos a Siôn. Hefyd at ei frawd Owie, a Betty a'r teulu ym Mryn Owen a Bryn Eithin.

Derbyniwyd newyddion trist hefyd o'r Wyddgrug pan glywyd am

farwolaeth Elwyn Parry, mab y diweddar Stan a Gracie Parry, Stryd Fawr. Ychydig fisoedd ynghynt yr oeddem yn cydymdeimlo â'r teulu ar achlysur marwolaeth ei frawd, Gwyn. Bu Elwyn yn gweithio i B.T. am flynyddoedd. Ychydig fisoedd yn ôl yr oeddem yn cydymdeimlo gyda'r teulu ar farwolaeth sydyn 3 Chwefror. Anfonwn ein cydymdeimlad at Rhiannon, Rhys a Lisa, a'r teulu oll yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd gydag Eilir, Anne Marie, Efa a Lois ar golli nain a hen nain yn Rhiw ger Pwllheli.

Gwellhad
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad at nifer fawr o'r ardal sydd wedi derbyn triniaeth mewn gwahanol ysbytai. Yn eu plith mae Seren, Alice Jones, Tan y Garth, Sharon Williams, Maes Bleddyn; Alan Griffiths (Pops), Stryd Walter; Gareth Jones, Tan y Garth a Vernon Davies, Yr Ynys.

Llongyfarchiadau
i Dafydd a Helen Hughes, Tan y Garth ar ddod yn nain a thaid ddwywaith. Ganed bachgen i Dion a Ffion yn Nhregarth a merch i Iestyn a Caryl ym Methesda. Pob dymuniad da i'r teuluoedd i gyd.

Pen-blwydd Hapus
Ar Chwefror 6ed bu dathlu yn Nhŷ Mwyn, Cae'r Groes wrth i Eifion Hughes gyrraedd oed yr addewid, 70 mlwydd oed.

Diolch
Dymuna Gareth, John, Sandra, Leah, Elen, Deiniol Twm a Megan ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd y teulu gan gyfeillion a chymdogion ar achlysur trist o golli Elizabeth Jane Jones, mam a nain annnwyl.

Geni
Llongyfarchiadau i Andrew a Laura, Lôn Ogwen, Bangor ar enedigaeth mab, Rhodri Ifan, brawd bach i Macsen. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, Peter ac Yvonne, Lôn Groes ac i Gwyneth Jones, Stryd Fawr ar ddod yn yn hen nain unwaith eto. Dymuniadau gorau i'r teulu bach oddi wrth Peter a Janice, Anti Christine a'r teulu i gyd.

Carmel, Llanllechid
Trefn Gwasanaethau

Chwefror
22 Ein Gweinidog 5.00

Mawrth
01 Ein Gweinidog (Cymun) 5.00
08 Parch. J. L. Jones 5,00
15 Parch. Athro E. W. Jones 5.00

Ysgol Sul 10.30
Dwylo Pysur, Nos Wener 6.30.

Croeso cynnes i bawb

Capel Carmel

Bu Seren, babi bach Eryl a Stephanie, Rhes Penrhyn yn yr Ysbyty yn Alder Hey, Lerpwl am rai wythnosau cyn iddi gael dod adref. Gwnaeth plant yr Ysgol Sul gardyn mawr, 'Brysiwch Wella' iddi gan gynnwys rhoddion ganddyn nhw, aelodau a chyfeillion Carmel.



Dyma lun o'r plant gyda'r cardyn

Teyrnged

Crynodeb o deyrnged Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, i'w gyfaill Griffith Williams (Griff Shop) yn y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Carmel Llanllechid yn ddiweddar

Ganwyd Griff yn 1934, yr ail o ddau fab i Thomas John ac Elizabeth Mary Williams. Cafodd blentynnod hapus gyda'i frawd Owie mewn cartref clyd a chrefyddol gyda'i dad yn adnabyddus fel pregethwr cynorthwyol gyda'r Wesleiaid. Aeth i Ysgol Cefnfaes lle datblygodd ei hoffder o ganu dan gyfarwyddyd Anita Roberts ac ymunodd a Chôr y Penrhyn yn fuan wedi gadael.

Roedd ei swydd gyntaf gyda Bayne and Dargie, Bangor, lle arferai'r staff fynd allan i ffermydd ac ati i fesur pobl am siwtiau. Yna at gwmni Lyons lle magodd ddiddordeb arall, sef gyrru. Daeth i nabod De Cymru yn dda a chafodd yr wyrion fantais o hyn pan fu raid iddynt hwy fynd i'r de gyda'u cyrsiau. Mae'n deg dweud na chai neb gario Griff yn ei gar – fo oedd yn eich cario chi bob tro!!

Cyfnod byr gyda chwmni yswiriant Pearl, cyn cael ei benodi yn rheolwr siop y Co-op yn Llanfairfechan hyd nes digwyddodd anffawd, anlwcus i'r Co-op, ond lwcus i Griff, pan syrthiodd llawr y siop i lawr i'r seler!

Dyma'n amlwg y sbardun roedd ei angen arno i gychwyn ei fusnes ei hun. Roedd eisoes wedi cyfarfod a phriodi Eirwen a bu'r ddau yn cyd-weithio'n hapus yn y tair siop oedd ganddynt nes, ymhen amser, canolbwyntio ar un siop fwyd ar sgwâr Llanllechid. Yma y gwelwyd Griff ar ei orau, gyda'i garedigrwydd a'i gymwynas-garwch yn nodwedd o'r busnes. Credaf i lawer un fod ag achos diolch iddo am iddo 'anghofio' ambell i ddyled pan oedd yn anodd i rai cael dan ben llinyn ynghyd.

Yna gorffen ei fyd o waith efo John Edwards ym Mangor lle gwerthfawrogydd ei gyfraniad a'i brofiad helaeth yn y warws. Gellid clywed ei chwerthin iach yn llenwi'r lle.

Cyfarfum ag o gyntaf yn 1955 pan ymunais â Chôr y Penrhyn ar ôl dychwelyd o Loegr i fusnes gyda nhad ym Mangor, a bum yn ffrindiau agos byth ers hynny.

Bu raid imi adael y côr er mwyn cwblhau cwrs athro yn y Coleg, ac ychydig wedi darfod gofynnwyd imi gynnig enwau ar gyfer côr newydd, sef Cantorion Menai, yr oedd John Hywel yn bwriadu ei ffurfio. Roedd Griff yn gyndyn iawn yn y dechrau ond fe ddaeth a threuliodd ugain mlynedd o fwynhad gyda'r côr nes iddo orfod ymadael oherwydd dirywiad yn iechyd Eirwen. Roedd hefyd yn aelod o wythawd Tryfan o dan arweiniad Cledwyn Jones o Driawd y Coleg.

Enwais eisoes ddau ddiddordeb, ond yn ddi-os y prif un oedd Eirwen a'r teulu. Roeddynt rywsut wedi eu gwneud ar gyfer ei gilydd a bu'n ofalus a thyner tuag ati gydol ei bywyd yn arbennig felly yn y tair blynedd diwethaf pan waethygodd yr aflwydd cas a gafodd. Dangosodd yr un consyrn tuag at ei theulu ac âi yn aml i ofalu eu bod yn ddiogel.

Cafodd Gwyn ac Einir y gorau gellid ei roi mewn anogaeth a chefnogaeth ym mha swydd bynnag yr aethant iddi a soniai'n aml fod Einir yn gweithio yn "rhy galed" fel nyrs yn yr Uned Gofal Dwys.

Mae nhw'n deud fod pob taid yn dotio ar ei wyrion. Doedd Griff ddim yn eithriad, gan warchod Llinos a Siôn, eu cario i'r ysgol, i gyrsiau, a hyd yn oed eu cludo adref o golegau yn y De. Trueni na chafodd fyw i weld priodas Llinos eleni ond rwy'n ffyddiog y bydd yno yn yr ysbryd.

Cawsom i gyd golled, y teulu'n arbennig, ond roedd Griff yn ddyn ei gymuned ac addas iawn fod y ffarwel olaf ynghanol ei bobl ei hun yn Llanllechid.

Hwyl fawr hen ffrind – chwith dy golli ond melyn yr atgof. Gorffwys mewn hedd.

Clwb Hanes Rachub,
Caellwngrydd a
Llanllechid

Daeth cynulleidfa helaeth ynghyd i ysgoldy Capel Carmel, i wrando ar gyflwyniad diddorol gan siaradwr gwadd cyntaf y Clwb Hanes, sef y Prifardd Ieuan Wyn. Roedd yn trafod enwau caeau lleol, - rhai sydd rhwng Bryn Eithin a'r Gerlan, ac roedd enwau arbennig o ddiddorol arnynt. Cafwyd 'Bicht', 'Cae Ffeltiwr', 'Cae Stalwyn', 'Cae Rhosydd' a 'Chaellwngrydd,' yn ogystal ag esboniadau ar enwau ffermydd fel 'Bowls' a 'Corbri'. Cafwyd gwybodaeth am dafarn 'Bryn Eithin Bach' ac am gae 'Hen Barc' ymhlith cannoedd o gaeau, a ffermydd eraill! Roedd yn gyfarfod gwych, a diolchwyd i Ieuan Wyn gan y Cadeirydd Dilwyn Pritchard.

Capel Bethel
Trefn Gwasanaethau

Chwefror.
22 Parchg Richard O Jones

Mawrth
01 Y Canon Idris Thomas
08 Y Gweinidog
18 Parchg Gwyndaf Jones
22 Parchg W. R. Williams
29 Parchg Huw Pritchard

Oedfaon am 2.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Capel Bethlehem

Damwain
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Miss Dilys Williams, a fu yn yr ysbyty yn dilyn damwain.

Bwrlwm Bethlehem
Llongyfarchiadau i Doris Shaw, un o selogion y Bwrlwm, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 mlwydd oed yn ddiweddar. Dyma lun ohoni yn torri'r gacen penblwydd yn y Bwrlwm ym mis Ionawr



Dathlu Gŵyl Ddewi
Bu aelodau Bwrlwm Bethlehem yn dathlu Gŵyl Ddewi yn fuan eleni, 11 Chwefror, pan fwynhawyd swper yng Nghaffi Coed y Brenin ym Methesda.

Geni
Llongyfarchiadau i Paul a Lisa, 80 Bro Emrys, ar enedigaeth Macey Jayne ar 5 Chwefror, chwaer fach newydd i Jamie, Lauren, a Mitchel.

Capel Bethlehem
Oedfaon y Sul

Chwefror 22: Y Gweinidog;
Mawrth 01: Dim Oedfa – Dathlu Gwyl Ddewi ym Methesda;
Mawrth 08: Y Gweinidog;
Mawrth 15: Parchg. Gareth Edwards, Deganwy;
Mawrth 22: Dim Oedfa ym Methlehem ond gwahoddir pawb i Gyfarfod Sefydlu'r gweinidog yng Ngharmel Llanllechid am 5 o'r gloch;
Mawrth 29: Parchg. Geraint S. R. Hughes, Pwllheli.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn

Eglwys Maes y Groes

Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Ann Elizabeth Jones o Erw Las, Bethesda ddiwedd y mis, dan arweiniad y Parch. John Matthews. Roedd Martin Brown wrth yr organ. Hoffem estyn ein cydymdeimlad dwys at y teulu yn eu profedigaeth .

Parháu y mae'r Boreau Coffi ar ddydd Mawrth cyntaf o'r mis yn yr Ysgoldy rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch. Diolch i Glwb Cerdded Bethesda am eu ffyddlondeb yn ystod 2014.

Fe gynhelir Cwrs Garawys yn Eglwys Tregarth yn wythnosol, yn dechrau ar 18 Chwefror tan 1 Ebrill, o 2.00 o'r gloch tan 3.30. Croeso cynnes i bawb.

Glasinfryn
Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

Pen-blwydd hapus!
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mrs Muriel Pritchard, Tegfan, 3 Waen Wen, wnaeth ddathlu ei phen-blwydd yn 96 oed ym mis Ionawr. Anfonwn ein cofion ati, ac rydym yn falch o glywed ei bod hi'n mwynhau gwrando ar newyddion y Llais ar dâp. Yn sicr, mae'r gwasanaeth yn un gwerthfawr.

Noson Bingo
Bydd noson Bingo yn cael ei chynnal yn y Ganolfan yng Nglasinfryn nos Wener, 6 Mawrth am 7.30yh er mwyn codi arian ar gyfer y Ganolfan. Buasem yn ddioleghgar iawn i dderbyn rhoddion tuag at y raffl a'r gwobrau ayb. Diolch o galon i bawb sy'n cefnogi'r

nosweithiau Bingo yn y Ganolfan. Dewch draw i fwynhau noson hwyliog.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Tudor ac Olwen Jones, Fferm Coed Hywel, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf, gyda genedigaeth ŵyr iddynt gan eu merch, Ffion Mair, a Dion.

Sefydliad y Merched
Llywyddwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn gan Ann Illsley nos Fercher 14 Ionawr. Roedd yn noson stormus ond mentrodd nifer fechan ohonom i'r ganolfan i gymdeithasu ar ôl toriad y Nadolig.

Ni chafwyd cyfarfod ym mis Rhagfyr, fe wnaethon ni fwynhau cinio Nadolig wedi ei drefnu gan Mair, a diolchwn iddi am noson lwyddiannus.

Yn ystod mis Rhagfyr daeth y newydd trist am farwolaeth sydyn Mrs Beryl Williams. Roedd yn aelod annwyl iawn a thalwyd teyrnged ddwys a theimladwy iddi gan Mrs Mair Griffiths.

Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth a bydd chwith i ninnau yn y

sefydliad heb ei chwmpeni tawel. Cofiwn amdani'n dyner.

Deallwn mai bregus yw cyflwr Mrs Janet Rees a dymunwn yn dda iddi.

Bu un o'r aelodau ffyddlon yn dathlu ei phen-blwydd yn 96 oed ym mis Ionawr ac anfonwyd cerdyn i ddymuno'n dda iddi gan yr aelodau. Pen-blwydd Hapus Mrs Muriel Pritchard! Deallwn eich bod wedi cael diwrnod prysur dros ben. (Fel yr hen ddyddiau yn ôl yr hyn dwi'n deall!) Da iawn chi, a llongyfarchiadau mawr am fod yr aelod hynaf yn Ffederasiwn Arfon/Gwynedd. Dipyn o gamp a diolch am eich ffyddlondeb. Braf fydd eich cael chi'n ôl yn y cyfarfodydd pan gynhesith y tywydd.

Cafwyd noson yng nghwmni Sarah Flynn, un o'r aelodau. Sgwrsiodd am ei phenwythnos yn Denman a dangosodd addurniadau Nadolig wedi eu gwneud ganddi yn ystod y cwrs.

Mwynhawyd paned wedi ei pharatoi gan Mrs Margaret Hughes a Mrs Nesta Parry. Rhoddwyd y raffl gan Ingrid ac fe'i henillwyd gan Mair.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Beryl a Jim Hughes, yr Elen, Llandygái ar enedigaeth eu gorwyres fach Poppy Rose ar 6 Ionawr, merch fach i Kate a Will Larkworthy sy’n byw yn Elgin yn yr Alban – croeso mawr i Poppy Rose.

Llongyfarchiadau mawr i Bobby a Rhianwen Jones, Bryn Awel, Llandygái ar enedigaeth eu gor-ŵyr, Iago Tudor, ar ddydd Sul 25 Ionawr, mab bach i Ffion a Dion, Tregarth. Bydd Taid a Nain, sef Tudor ac Olwen, yn ddigon prysur yn magu eu hŵyr bach newydd – bendith arnoch i gyd fel teulu.

Gwaeledd
Roeddem yn hynod o falch o glywed bod Dian Hughes, Drws y Coed, Parc Penrhyn, wedi dychwelyd o Ysbyty Gwynedd erbyn hyn a’i bod yn gwella bob dydd.

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau da at y cleifion sy’n dal yn wael: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Moyra Muir, Olwen Latham, Cassie Tyndall, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Adferiad llwyr a buan i chi i gyd,

Pen-blwydd arbennig
Llongyfarchiadau i Cai Jones, 4 Pentref Llandygái gynt, a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ar 22 Chwefror. Pob hwyl iti ar y diwrnod pwysig a dymuniadau da ar gyfer y dyfodol Cai.

Diolch
Diolch i bawb a fu’n casglu tocynnau “Make a Wish” y Daily Post mor ddygn. Casglwyd cyfanswm o 7,664. Diolch yn arbennig i Mrs Joy Radcliffe am gysylltu â’r Daily Post yn y lle cyntaf cyn i bawb fynd ati i gasglu tocynnau a’u danfon i Joy – gobeithio y bydd Eglwys Sant Tegai yn ddigon ffodus i dderbyn peth o’r arian ynte.

Sefydliad y Merched
Cynhaliwyd y cyfarfod misol ar nos Fercher 28 Ionawr gyda Val Williams yn y gadair y mis hwn. Estynodd groeso i bawb yno.

Cafwyd sawl ymddiheuriad am absenoldeb a darllenwyd y llythyr misol o’r ffederasiwn a nodi ei gynnwys, Bydd tair aelod yn mynd i’r cyfarfod blyneddol a gynhelir ym Mrynrefail ar 7 Chwefror.

Pat Cohen oedd ein siaradwraig a chroesawyd hi’n gynnes gan Val. Gwraig ddiddorol a gwybodus iawn yw Pat, sy’n mwynhau siarad am wahanol bethau. cawsom noson ddifyr yn gwrandao arni yn siarad am Mrs Emily Pankhurst a’i merch Sylvia.

Diolchodd Hafina iddi am noson arbennig,

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Pen Tymor



Wedi dwy flynedd yn llywydd Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon daeth tymor Cynrig Hughes, Rallt Uchaf, i ben yng Nghyfarfod Chwarter mis Ionawr yng Nghapel Coffa Cyffordd Llandudno, pan gyflwynwyd anerchiad diddorol iawn ganddo. Yn y llun gwelir Cynrig, ar y dde, yn trosglwyddo Beibl y Llywydd i’r llywydd newydd, sef y Parchedig Gareth Edwards, gweinidog y Capel Coffa.

Eglwys Sant Tegai

Marwolaeth
Ar 4 Ionawr yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar ôl gwaeledd hir bu farw Mrs Jaqueline Mary Williams, Talybont yn 76 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â Barry ei gŵr, Debbie, Barry a Julie ei phlant. a’r teulu oll yn eu profediaeth chwerw. Cydymdeimlwn hefyd gydag Anne Williams ei ffrind pennaf, a fu mor driw iddi am flynyddoedd maith.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Maes y Groes, Talybont ddydd Gwener, 9 Ionawr a’r gladdedigaeth ym Mynwent yr Eglwys. Bu Jaqueline yn aelod ffyddlon yn Sant Tegai cyn i’r afiechyd fynd yn drech na hi – gwraig gwrtais a chyfeillgar bob amser.

Gwaeledd
Cofiw’n am bawb sy’n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd:- Jane Couch, Ben Cramb, Gwynne Edwards, Enid Gardner, Harry Gross, Dian Hughes, Olwen Latham, Audrey McSorley a Joy Radcliffe. Brysiwch Wella.

Cwrs garawys
Mae’r Parchedig John Matthews yn dechrau Cwrs Garawys yn Eglwys Tregarth bob dydd Mercher o 18 Chwefror i 1 Ebrill. Bydd y cwrs yn dechrau am 2.00 o’r gloch tan 3.30 a bydd croeso cynnes i bawb.

Bingo
Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, 27 Ionawr a bu’n llwyddiant mawr. Gwnaethpwyd elw o £200 i Sant Tegai ac y mae’n dyled yn fawr i aelodau’r eglwys am drefnu’r noson, ac i bawb a oedd yn bresennol. Roedd yn noson hwyliog iawn ac ambell un yn fwy lwcus nag eraill. Tybed pwy?

Te Bach
Diolch unwaith yn rhagor i’r Ficer a Sue ac aelodau Eglwys y Santes Fair, Tregarth am eu croeso cynnes i’r Te Bach ar ddydd Mawrth, 27 Ionawr. Bu’n brynhawn difyr, a’r clod yn mynd i Rosemary a Rhian am y teisennau blasus a’r baned te. Roeddem yn lwcus iawn bod Ceri wedi gallu bod yno efo’r raffl gyda John Matthews yn rhoi help llaw iddi, tra roedd Alys fach yn cysgu’n braf. Gwnaeth Llandygái yn rhagorol ar y raffl gan lorio pawb arall.

Gwasanaeth y Cymun: Gŵyl Fair y Canhwyllau
Fore Sul, 1 Chwefror, cawsom wasanaeth trawiadol iawn. Y Parchedig John Matthews oedd yn gwasanaethu a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Roedd nifer dda yn bresennol er gwaethaf y tywydd oer, ac roedd y canu yn rhagorol hefyd. Yr oeddem yn falch o gael croesawu’r Parchedig John Aelwyn Roberts yn ôl ar ôl bod yn wael cyhyd. Mae’n ffyddlon iawn i Sant Tegai.

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Rhagfyr 2014
1af. Rhif 48 Mai Williams, Rhiwlas
2ail. Rhif 44. Margaret Griffith, Caerhun
3ydd. Rhif 57 Allan Jones, Glyn Ogwr

Clwb 100 Mis Ionawr 2015
1af. Rhif 40 Nesta Barton, Deiniolen
2ail. Rhif 24 Nia Roberts, Rhiwlas
3ydd. Rhif 15 Terry Jones, Caernarfon

Swper Gŵyl Dewi
Cynhelir swper i ddathlu gŵyl ein nawddsant ar nos Sadwrn 28 Chwefror am 6.00 yr hwyr yn y Ganolfan, Glasinfryn. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â’r dathliad

Bingo
Cynhaliwyd noson o Fingo yn y Ganolfan, Glasinfryn ar 30 Ionawr. Cafwyd noson hwyliog a llwyddianus. Diolch am y gefnogaeth.

Gwasanaethau'r Sul
Gwasanaethau am 9.45yb

Chwefror 02 Boreuol weddi	Mawrth 01 Cymun Pawb 05. Boreol Weddi 15. Cymun Bendigaid 15. Boreuol weddi
Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau	

LLYFFANTOD PENTIR

Fel y gŵyr y rhan fwyaf ohonnoch mae gennym fudo llyffantod arwyddocaol iawn pob Gaeaf yma yn Mhentir.

Mae hyn yn digwydd o gwmpas Mis Chwefror i fewn i Mis Mawrth.


Mae y llyffantod yn mudo ar hyd lonydd Rhyd-y-Groes a Lôn Rallt i'r llyn (sydd ar ochr ddwyreiniol Lôn Rallt) i baru ac i fwrw sil. Mae gennym rai brogaod hefyd!

Er mwyn diogelu y mudo araf yma rhag gerbydau mae criw o drigolion wedi bod yn cynnal patrôl i gynorthwyo y llyffantod i'r cae a'r llyn ac i sichrahu siwrne saff.

Gyda cynnydd mewn trafndiaeth a phosibilrwydd o dymor mudo maith, rydym wedi penderfynu ceisio trefnu ein hunain yn well ar gyfer y patrol y flwyddyn hon ac rydym eisau annog mwy o drigolion i gymeryd rhan. Mae y patrôl wedi cael ei gofrestru gyda Froglife.org. Efallai eich bod wedi sylwi ar arwyddion sydd wedi eu gosod ar Lôn Rallt a Rhyd-y-Groes i rybuddio ac atgoffa gyrrwyr o'r mudo.

Cynhaliwyd sesiwn cyflwyno gwybodaeth patrôl llyffantod Dydd Mercher 4 Chwefror. Cychwynodd y noson o flaen yr Hen Gapel. Bu i oddeutu ugain o bobl droi i fyny. Roeddem yn lwcus iawn i gael cwmni arbenigwraig leol, Liz Howe, sydd yn arweinydd tim rhywogaeth ac yn ymlusgolegydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Cerddwyd ar hyd y llwybr mudo at y llyn yna dychwelom i Dafarn y Faenol yn Mhentir ar gyfer sgwrs gan Liz. Roedd hyn yn gyfle i ni gael gwybodaeth gefndirol ar fudo llyffantod, eu harferion cenhedlu ac ystadegau eraill. Roedd cyfle hefyd am sesiwn holi ac ymateb a bu llawer o drafod am y mudo.

Croesawn unrhyw un sydd a diddordeb i ymuno â ni neu a hoffai fwy o wybodaeth i gysylltu â Kate ar kate@rpmguiding.com neu Anwen ar a.thomas190@btinternet.com



Rhiwlas

Iona Jones

17 Bro Rhiwen, Rhiwlas

☎01248 355336

Clwb Rhiwen

Bu cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd ar Ionawr 14eg a buom yn trefnu'r rhaglen ar gyfer y tymor. Yn ogystal roeddem yn trafod rhai o hen arferion oedd yn y pentref i ddathlu'r flwyddyn newydd. Diolch i'r drefn fod yr hen arfer o ddwyn giataiu ar Nos Galan wedi dod i ben! Diddorol hefyd oedd dysgu am arferion gwledydd eraill. Helen a Iona wnaeth y baned ac Irene oedd enillydd y raffl.

Cyfarfod Ionawr 28

Unwaith eto roedd rhai o ffyddloniaid y Clwb yn analluog i fynychu'r cyfarfod oherwydd gwaeledd, anfonwn ein cofion atynt. Cafwyd hwyl yn chwarae Bingo a sawl un yn hynod o lwcus! Llongyfarchwyd Jean ar ennill croesair rhifyn Nadolig o'r Llais. (Fe gafwyd hefyd atebion cywir gan ddau arall o'r pentref sef Derek a Mai Jones). Irene wnaeth y baned a Jean enillodd y raffl.

Y Gwyll

Pleser oedd gweld Owain Arthur yn y ddrama Y Gwyll ar ddechrau'r flwyddyn. Mae wedi gwneud cryn enw iddo'i hun yn y maes yma, ac rydym yn ymfalchio ei fod yn gyn ddisgybl o Ysgol Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafodd lwyddiant mawr gyda'r ddrama "One man, two Guvnors". Yn dilyn y rhediad yn Llundain bu ar daith i Awstralia, Seland Newydd a Hong Kong yn portreadu Francis Henshall ac yn ogystal bu'n perfformio yn Llandudno a chyfle i bobl leol weld y cynhyrchiad. Wedi ymaelodi â Glanaethwy dechreuodd ei yrfa actio ar Rownd a Rownd pan oedd yn 11eg oed a pharhau gyda'r gyfres am naw mlynedd. Roedd un arall o gyn ddisgybion Ysgol Dyffryn Ogwen yn Y Gwyll hefyd sef yr actor adnabyddus John Ogwen a'r ddau fel roeddem yn dweud yn Rhiwlas ers talwm yn "siarad Sowth"

Cydymdeimlo

Ychydig amser ar ôl ei phenblwydd yn 90 oed bu farw Mrs Nancy Williams, yr hynaf a'r olaf

o blant Mr John Owen a Mrs Maggie Griffith, Rhes Uchaf, Rhiwlas. Roedd yn briod â'r diweddar Trevor Williams, yn wreiddiol o Llanllechid. Wedi priodi buont yn byw am gyfnod ym Mro Rhiwen ac fe fagwyd y plant, Eluned ac Elwyn yno. Wedyn symudodd y teulu i Fangor ac wedi ymddeol cartrefu ym Methel. Bu'n gweithio fel ysgrifenyddes gyda'r BBC ym Mangor a hefyd yn Ysgol Tryfan. Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at Eluned ac Elwyn a'u teuluoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Val a Dave Yeomans a Sam, Hafod Lon, bu farw mam Val, Mrs Mary Jones o Gaernarfon Cydymdeimlwn hefyd ag Yvonne a Craig Holstead, Reece a Megan o Bron y Waun. Bu farw nain Yvonne, Mrs Elisabeth Griffith, Ffordd Deiniol, Deiniolen.

Hefyd bu farw mam yng nghyfraith Mrs Cathy Owen, Cae Glas. Roedd Mrs Agnes Wyn

Owen yn un o'r Felinheli ac rydym yn cydymdeimlo â'r teulu.

Yn yr ysbyty

Y mae Mr John Huw Evans wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn awr yn Ysbyty Eryri. Mae'n teimlo'n well ac yn gobeithio dod adref yn reit fuan. Pob dymuniad da i chi John.

Mynd i Ganada

Y mae Gwyn Rhys, Erw Wen, a'i gymar Bronwyn wedi penderfynu ymgartrefu yng Nghanada. Fe fyddant yn byw yn Vancouver, dinas hardd a diddorol yn ôl pob sôn. Un o Ganada yw Bronwyn a bu Gwyn yno am gyfnod rhai blynedd oedd yn ôl. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch a beth am anfon llun neu ddau i'r Llais?

Mynydd Llandygái

Theta Owen

Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.

☎ 600744

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Carrol Smith ar farwolaeth sydyn ei ffrind, Ken. Rydym yn meddwl amdanoch.

Brysiwch Wella

Mae llawer o'r pentref heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Cofion atoch a dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

Cau Ffyrdd

Bydd tridolion y Dyffryn wedi sylwi ar yr arwyddion sy'n rybuddio trafndiaeth na ellir mynd ddim pellach na Mynydd Llandygái ar hyn o bryd a bod rhaid mynd yr ochr arall i Foel Rhiwen i gyrraedd Llanbabo a thu hwnt.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Gwasanaethau

Chwef. 15: Cymun Bendigaid
Chwef. 22: Boreol Weddi
Mawrth 1: Gwasanaeth Teuluol
Mawrth 8: Cymun Bendigaid
Mawrth 15: Sul y Fam - Cymun Bendigaid

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 y.b.

Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno a ni yn ein gwasanaethau boreol.

Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Cofiwch ymuno a ni yn y "Te Crempog" nos Fawrth 17eg Chwefror am 6.30 p.m.

Cynhelir y " Ffair Basg" eleni rhwng 11.00 a 3.00 o'r gloch Ddydd Sadwrn, 28ain Mawrth. Bydd Cawl a bara ar gael dros yr awr ginio; hefyd ein stondinau arferol. Cofiwch ymuno a ni naill ai am gawl neu baned a sgwrs.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

Diolch Pen-blwydd
Yn ystod y Nadolig dathlodd Margaret Pritchard, 1 Ffordd Tanrhiw, ei phen-blwydd arbennig. Carai ddiolch o galon i bawb am y cardiau, yr anrhegion a’r galwadau ffôn a dderbyniodd. Dathlwyd gyda’r teulu yng Ngwesty’r Victoria, Porthaethwy. Prynhawn i’w gofio! Diolch i’r plant am drefnu.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Ffion Mair a Dion, Penrala, ar enedigath eu mab Iago Tudor ar 25 Ionawr. Llongyfarchiadau hefyd i Nain a Taid, sef Olwen a Tudor, Fferm Coed Hywel, gynt o 2 Ffordd Tanrhiw.

Croeso i’r Ardal
Croeso i Donna ac Arwel Dobson i Ffrwd Galed, Tregarth. Maent wedi symud i’r ardal o Forfa Nefyn. Pob dymuniad da iddynt.

Capel Shiloh

Gwasanaethau

Ysgol Sul am 10.30
Oedfa’r hwyr am 5.00

Chwefror 15 Glyn Owen, Llanwnda
Chwefror 22 Parch Gwynfor Williams
Mawrth 7 Oedfa Sacrament
Mawrth 8 J.O. Roberts, Bethesda
Mawrth 15 Parchedig Idris Thomas
Mawrth 22 Trefniant Lleol
Mawrth 29 Oedfa Deulu Sul y Blodau am 10.30 – Parch Philip Barnett

Yn yr Ysbyty
Dymunwn wellhad llwyr a buan i’n Gweinidog y Parchedig Philip Barnett, a gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, Dydd Mawrth, 3 Chwefror . Mae adref yn Neganwy erbyn hyn ac anfonwn ein cofion fel eglwys ac fel ardal ato gan obeithio y caiff gyfle i wella ac ychydig o seibiant cyn dychwelyd yn ôl i arwain y gwasanaethau yn Shiloh.

Colli un o flaenoriaid Shiloh
Dydd Gwener, 6 Chwefror daeth y newyddion eithriadol o drist am farwolaeth Trefor Owen, Meillionnydd, Tal y Cae, yn Ysbyty Gwynedd wedi gwaeledd byr. Cyn ymddeol a dod i fyw i Dregarth roedd Trefor yn Guradur Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, ger Caerdydd ac yn arbennigwr ar lèn gwerin llawer iawn o wledydd yn ogystal â llên gwerin Cymru. Collodd ei briod Gwen ym Mis Medi 2013 a brwydrodd yn galed wedi’r brofedigaeth fawr i fynychu’r oedfa yn Shiloh tan y Sul Ionawr 11. Bydd bwlch mawr ar ei ôl a rhyfedd fydd gweld ei sedd yn wag. Cydymdeimlwn gyda’i blant Huw, Gruff a Mared a’r wyrion Siôn, Marsli, Catrin, Dylan, Dafydd, ei chwaer yn Nolgellau a’r holl deulu yn eu profedigaeth.

Merched y Wawr

Nos Lun, 5 Ionawr, rhoddodd y llywydd, Myfanwy Harper, groeso i’r siaradwr gwadd, sef Alan Pritchard, sy’n gweithio i Barc Cenedlaethol Eryri. Cafwyd ganddo fraslun o’r math o waith mae’n ei wneud yn yr awyr agored a thrwy gyfrwng lluniau ardderchog o Eryri a’i chriw gwelsom pa mor lwcus ydio o gael gweithio mewn awyrgylch mor fendigedig. Mae ei swydd yn mynd ag ef o Ddyffryn Ogwen i Ddyffryn Conwy gyda chanolbwynt ei swydd ym Metws y Coed. Gwelodd rhai ohonom luniau o leoedd nad oeddau ni’n gwybod eu bod yn bodoli megis, Castell y Gwynt. Byddwn gobeithio yn cadw ein llygaid yn agored o hyn ymlaen!

Diolchwyd i Alan am noson gartrefol ac addysgiadol gan Janet Jones a gwnaed y baned gan Angharad Williams, Anwen Griffiths ac Olwen Jones. Llongyfarchwyd Olwen ar ddod yn nain am y tro cynta i fachgen newyddanedig ei merch Ffion a Dion yn Penrala, Tregarth, sef Iago Tudor Evans Hughes.

Oherwydd y tywydd gaeafol a’r eira’n drwch ar lawr bu’n rhaid gohirio cyfarfod Mis Chwefror, sef noson yng nghwmni’r awdures Bet Jones, Rhiwlas. Roeddem wedi edrych ymlaen yn arw i wrando arni yn sôn am ei phrofiadau yn y byd llenyddol ond gobeithio y ceir cyfle yn fuan eto i’w chroesawu yn ôl i Gangen Tregarth o Ferched y Wawr.

Bydd y gangen yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi drwy swper ac adloniant yn y Caban, Brynrefail. Am fwy o fanylion cysyllter â Myfanwy [362139] Alison [600946] neu Enid [353085]

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

26 Chwefror Cymun Bendigaidd
01 Mawrth Boreol Weddi
08 Mawrth Cymun Bendigaidd
15 Boreol Weddi

Pob gwasanaeth yn dechrau am 9.45 y bore.

Clwb Cant Ionawr
1 Eirwen Owen 162
2 Goronwy Roberts 106
3 Beryl Brown 39

Mae aferiad y Te Bach wedi dod yn rhan o galendr y Gelli. Braf yw gweld aelodau o eglwysi Sant Tegai a Maes y Groes yn dod i’n cefnogi. Pawb yn mwynhau a sgwrsio yn yr un diwethaf, a gynhaliwyd ar 27 Ionawr.

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn yn ddwys â Shirley a’r teulu, 16 Gernant, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid, sef Derek Williams o Arafa Don, ond gynt o 21 Braichmelyn. Un o hogia Braichmelyn oedd Derek ond roedd wedi bod yn wael ers peth amser. Meddylw’n hefyd am Wendy, chwaer Shirley, a’i theulu hithau, wedi colli ei thad a thaid annwyl. Roedd Derek yn frawd-yng-nghyfraith i Gwynfor a Nerys Jones, Llys Hedd. Anfonwn ein cydymdeimlad atynt hwythau.

Balchder bro
Gwelwyd Ioan Doyle, Tŷ Ffynnon ar y teledu – eto’n dringo, “fel Spiderman” yn ôl rhai. Roedd y rhaglen yn dilyn hynt Ioan fel dringwr ac fel bugail. Llongyfarchiadau Ioan, rydym yn falch iawn ohonat ac yn mwynhau gweld dy gampau ar y teledu.

Salwch
Mae nifer o’r trigolion wedi bod dan annwyl a than y fflw – gobeithio eich bod yn well erbyn hyn ac anfonwn ein cofion at bawb sydd dan unrhyw anhwylder.

Os am gynnal bore coffi neu ddigwyddiad arall yn Neuadd Ogwen cysylltwch gyda Dilwyn Llwyd drwy e-bost
post@neuaddogwen.com neu drwy ymweld â’r neuadd i drafod.

OGWEN

Marchnad Ogwen

Croeso cynnes fel arfer i Farchnad Ogwen mis Mawrth. Bydd y Farchnad y tro yma ddiwrnod cyn Sul y Mamau sef Mawrth 14eg. Dyma’r cyfle perffaith i brynu’r anrheg ddelfrydol!

Mae Marchnad Ogwen wedi dechrau cydweithio gyda grŵp o Ddysgwyr Cymraeg sy’n cael eu gwersi yn Neuadd Ogwen. 'Rydym yn falch dros ben o allu rhoi'r cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg gyda ni. Croeso cynnes iawn iddynt ymuno â ni bob mis. Mae Stodin Elusen mis Mawrth ar gael gan fod y mudiad oedd wedi ei llogi wedi gorfod tynnu'n ôl. Mae hon yn Stodin hynod o boblogaidd felly "y cyntaf i'r felin"

Am wybodaeth gyfredol am y Farchnad, ewch at ein Bwrdd Gwybodaeth tra yn y Farchnad, ymweld â’n gwefan - www.marchnadogwen.co.uk neu gael cip ar Facebook.

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Llwyau Caru LLEW TUDUR

Artist Cymreig sy'n cerfio
llwyau caru unigryw i
ofynion y cwsmer

07775 520657

www.llwyaucaru.cymru

Bethesda

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOC: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Sefydlwyd

1969

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith felt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau*

Ffôn: 01286 870605

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

D. Hughes a S. Roberts

Seiri Maen

Bob math o Waliau Cerrig
Ffensio : Tirlunio

Ffôn : 07766 895352

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau
1905 - 1907

1905

- 100 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol y Sir; 169 ar y llyfrau erbyn 1908 a 172 erbyn 1909.
- 23/03/1905 (Iau): Thomas Pritchard (Bryngola) yn cyfarfod â damwain ym Mhantdreiniog. (Marw 24/03.)
- 31/03/1905: Prifathro Ysgol y Cefnfaes yn cofnodi yn Llyfr Cofnodion yr ysgol: ‘Two of our best children in Standard III – Arvon and Margt E. Williams – left school on Tuesday last. They sailed for Patagonia yesterday. Their family is only one of many who have left Bethesda owing to the Quarry Dispute. Other families are going, I understand.’
- 04/40/1905 (Mawrth): John Prichard, Pen-y-bryn, tad Caradog Prichard, yn cael ei ladd yn y Chwarel.
- 24/05/1905 (Mawrth): Bertie Crowther, Bethesda, yn boddi yn Afon Ogwen.
- 12/1905: Ffurfio ‘Cymdeithas Hen Ddisgyblion Bethesda’ neu’r BOPA (Bethesda Old Pupils’ Association).
- Amelius Clarke yn cau ei stiwdio tynnu lluniau yn Stryd Fawr Bethesda (y drws nesaf i Siop W. H. Lewis, dros y ffordd i’r Bull) ac yn olynu ei dad yn yr un busnes ym

- Mangor.
- Curad Eglwys Llanllechid: Y Parchedig T. D. Jones, tan 1906
 - 09/1905: Rhys J. Huws yn dod yn Weinidog i Gapel Bethesda. (Ganed: 13/06/1862 ym Mhenegoes.) Sefydlydd Eisteddfod y Plant ym Methesda. Gadawodd Bethesda 09/1912. Marw 21/11/1917 yn 55 oed; claddwyd ef ym Mynwent Aberhosan.
 - Cyhoeddodd David Thomas Ffrancon Davies The Singing of the Future.
 - Atgyweirio Eglwys Glanogwen ar gyfer dathlu ei hanner canmlwyddiant yn 1906.
 - Pris 5 cant o lo ym Methesda: 7/6d (37½c).
 - Diswyddo 106 o ddynion yn Chwarel Pantdreiniog.

1906

- 16/10/1906 (Mawrth): H. Simon Williams, Twr, yn cael ei ladd ym Mhantdreiniog yn 24 oed.
- 29/12/1906: Bu farw’r Parchedig David W. Thomas a fu’n Ficer St Ann rhwng 1859 ac 1894.
- Curad Eglwys Llanllechid: Y Parchedig David Lewis, B.A. (Ap Ceredigion).

1907

- 07/01/1907 (Dydd Llun): John Isaac Morris, Gray St., yn cael ei ladd ym Mhantdreiniog yn 26 oed.
- 28/02/1907 (Dydd Iau): Y Parchedig Rhys J. Huws yn cynnal Eisteddfod y Plant – y gyntaf – ym Methesda. Mihangel ap Rhys, Bangor, yn cael y Goron, John Parry, Pen-y-Graig, yn cael y Gadair.
- 09/07/1907: Y Brenin Edward VII yn mynd drwy’r pentref.
- 15/11/1907: Agor ‘Ysgol Gyngor y Cefnfaes’ yn swyddogol gan yr aelod seneddol William Jones. Cyflwynwyd ‘Cerdyn Cof’ i bob un o ddisgyblion yr ysgol i ddathlu’r achlysur.
- Cyhoeddi Y Gwyliwr, papur newydd Dyffryn Ogwen.
- W. J. Parry yn cyhoeddi ei gofiant cynhwysfawr i’r Parchedig Rowland Williams (Hwfa Môn)
- Marw George Sholto Douglas Pennant.

I’w barhau

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr fel yn arferol ar nos Fawrth olaf y mis. Gwelwyd eto bod aelodau newydd o’r dyffryn wedi ymaelodi efo ni ar ddechrau blwyddyn. Blwyddyn fydd yn brysur iawn, gan ei bod yn flwyddyn etholiad eleni - ac eto y flwyddyn nesaf.

Yn lleol, nodwyd gan y Cynghorydd Ann Williams ei bod yn anhapus iawn gyda sefyllfa’r sbwriel sydd yn dal i anharddu Stryd Fawr, Bethesda, yn bennaf o flaen yr hen fanc dros y ffordd i Gorffwysfan. Nid yw ymateb y tenantiaid na’r deilydd wedi bod yn foddhaol hyd yma ac mae’r sefyllfa yn dal i beri gofid a phryder ynglyn â iechyd a diogelwch. Mae’r cynghorydd yn dal i weithio i geisio datrys y problemau.

Cynhaliwyd cymorthfeydd prysur ym Mynydd Llandygái a Thregarth gan Hywel Williams A.S., a bydd Alun Ffred Jones, A.C. yn Rachub ym mis Chwefror.

Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer dau ddigwyddiad pwysig. Ar nos Wener, Chwefror 27ain bydd ein Cyfarfod Blynyddol a chawn ein hannerch gan Rhun ap Iorwerth A.C. ac edrychwn ymlaen i glywed ganddo. Bydd Hywel Williams A.S. hefyd yn bresennol. A’r bore canlynol, sef Chwefror 28ain, bydd ein Bore Coffi cyntaf o’r flwyddyn yn cael ei gynnal yn Neuadd Ogwen.

Wedi’r cyfarfod arferol cawsom gyflwyniad diddorol a buddiol ar ymgyrchu etholiadol gan Llyr ab Alwyn a Cai Larsen, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd Etholaeth Arfon.

Nyth y Gân

Ffermwyr yr Helfa

Hyd lwybrau caeth y daethant, yn ddedwydd
Lluddiedig y troediant;
Brwyn a ffos, a bryn a phant
Lefarodd dan lifeiriant.

Tyddyn

Mor ysgafn mae’r awel yn chwythu,
A swynol ei chân am yn hir,
O bell daw y seiniau soniarus
Gan chwarae hyd wyneb y tir.

Hen ffenest y llofft sydd ar agor
Ers oriau i gyfarch y wawr,
Mae’n dal i fod yno mor gadarn,
Er gwaethaf yr holl stormydd mawr.

Mae’n rhyfedd fel y bydd geiriau
Yn gallu datgelu y gwir,
A hyfryd yw meddwl a chofio
Am y pethau hynny am hir.

Anghofiaf i byth mo’r bwlech hwnnw
A ledai ymhell hyd y clawdd,
A’r domen o gerrig oedd yno
Yn dasg nad ydoedd yn hawdd.

Roedd dewis y patrwm yn bwysig
Er mwyn cael pob dim yn ei le,
A’r cyfan yn cadarn gyd-orwedd,
Pob carreg yn daclus a chref.

Mor braf er mor galed bryd hynny,
Pob tyddyn yn llawn yn y fro
Yn magu y plant yn eu mamiaith,
A’r Gymraeg mor gadarn dan glo.

Weiren Bigog Auschwitz

Tawel oedd tu ôl iddi, lle yno
Bu’r llusgo a’r llosgi;
Mae’r hon fu am y rheini
A’u gwae nhw’n ein pigo ni.

Dafydd Morris

Gaeaf

Daw llaw anwel hen elyn,
Yn oer glwyf dros gloddiau’r glyn;
Oriau’r lluwch a’i guwch yn gen
Hyd ymyl llwyd y domen.

Bysedd hen lysnafedd, nwyd
Yn ennyn pwl o annwyd;
Ffrwd yn sibrdw mewn sobrwydd.

Diafol, dad ufel dur,
Ymhell o’I fflaglau amhur:
Siglo grasusau eglwys,
Mynwentydd diwetydd dwys;
A thaenu haenen denau
O obaith, er gweniaith gau,
Llawn gwin a llenwi gwaenydd
Â thangnefedd diweddd dydd.

Oer ywen ac oer awel,
A rhedyn fel menynd mêl,
A disgyn wna llwyd asgell
Y paun ar orwelion pell.

Onid tywyll gwyll y gau,
Cawod griddfannau’r caeau?
Ingoedd distrywgar angau
Yn y cwm dirgel sy’n cau;
Y maes yn lledu maswedd
Yn bwrw y Bywyd i’r bedd.

Goronwy Wyn Owen

Siop Ogwen

Cownter Gwasanaethau

Dydd Llun 10.00-4.00: Cymorth i Ferched
 Dydd Llun 9:30-11:30: Banc Bwyd (Derbyn Talebau)
 Dydd Mawrth 10.00-2.00: Wardeiniaid Ynni
 Dydd Mercher 12.00-2.30: Banc Bwyd (Dosbarthu Bwyd)

Siop Grefftau ar agor Llun - Sadwrn
 01248 602131 partneriaeth@ogwen.org

"FFONIWCH DIONI I GAEL
 'BWCINGS' YCHWANEGOL
 DROS Y GAEAF"

tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk



Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
 Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
 Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
 Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260



www.owenswales.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
 Atgyweirio MOT
 Gwasanaethu Cerbydau
 Cydbwyso Teiars
 Batris
 Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
 Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
 Gwynedd LL57 3NE

ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
 Dynion a Phlant
 gan Alison

SAMARIAID

Mae
 Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
 7.00pm ac 11.00pm

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
 Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
 - trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
 EICH
 CYFREITHIWR
 LLEOL

SGWÂR BUDDUG
 STRYD FAWR
 BETHESDA
 GWYNEDD
 LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
 AM DDIM

EWYLLYSIAU A
 PHROFIANT

SYMUD TŶ

L. Sturrs

a'i feibion
 sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
 Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com

Côr y Penrhyn

Aiff Twm byth yn angof

Llais Twm i'w glywed yn ei angladd wrth i aelodau'r côr ganu ei hoff ddarn.



Y diweddar Twm Morgan

Mae teulu un o'r aelodau a fu'n canu yn un o brif gorau Cymru am nifer fawr o flynyddoedd wedi diolch i'w gyd aelodau am roddi cyflwyniad emosiynol o'i hoff gân yn ei angladd.

Bu Twm Morgan a fu'n gweithio yn y chwarel am y rhan fwyaf o'i oes yn aelod o Gôr Meibion y Penrhyn am 64 mlynedd a hynny tan ychydig wythnosau cyn ei farw yn 81 oed.

Roedd Twm yn aelod o'r adran fas a chyda'r adran fariton cyn hynny. Bu'n unawdydd gyda'r côr am nifer o flynyddoedd hefyd. Cafodd ei godi'n llywydd anrhydeddus y côr yn 2001 a bu yn y swydd honno tan y diwedd. Fel teyrnged i'w gyfraniad fel aelod o'r côr ac ar gais Vera, ei weddw, clywyd recordiad o Twm yn perfformio rhan yr unawdydd yn ei hoff gân, Rhyfelgan y Weriniaeth, (Battle Hymn of the Republic) yn ei angladd yn nechrau Ionawr. Ymunodd gweddill aelodau Côr y Penrhyn yn fyw gyda'r recordiad. Roedd dros 200 o bobl yn bresennol yn y gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor yn cynnwys ei briod Vera a'i dri phlentyn Gwyn, Dylan a Nerys. Mae hefyd yn gadael pump o wyrion ac wyresau:

Dilynodd Twm yn ôl traed ei dad, Emrys, wrth ymuno â'r côr. Roedd hi'n addas iawn felly pan gafodd Twm rôl flaenllaw yn y côr gan i'r tad a'r mab gyd-ganu am flynyddoedd lawer.

Meddai Alun Davies, Cadeirydd y côr, "Roedden ni i gyd yn drist iawn ar ôl colli Twm oherwydd roedd o'n rhan mor allweddol o'r côr."

"Dyn digon tawel oedd Twm, un swil â dweud y gwir, gan nad oedd yn un am sefyll o flaen pobl i ddenu sylw ato'i hun ond er hynny roedd o'n mwynhau tynnu coes a byddai ganddo ryw sylw neu ymateb i bob sefyllfa."

"Roedd o'n hoff iawn o herian pobl ac roedd wrth ei fodd yng nghyfeillach y côr. Roedd ei aelodaeth yn rhan enfawr o'i fywyd ac yn rhan bwysig o'r gymuned ym Methesda lle'r oedd Twm yn byw."

"Bydd bwlch mawr ar ei ôl."

Hefyd, perfformiodd y côr Bendigedig, un arall o hoff ganeuon Twm, wrth i'w arch gael ei chludo i mewn i'r amlosgfa a hynny ar gais ei ferch, Nerys.

Meddai hi: "Byddai nhad wedi cerdded drwy ddŵr a than i berfformio efo'r côr. Doedd o byth yn colli ymarfer na chyngerdd. Roedd o'n byw er mwyn y côr yna."

"Pan ofynnodd y gweinidog i mi am ei ddiddordebau, mi ddywedais: "Canu, canu, canu a mwyn o ganu!"

"Gofynnodd mam am Ryfelgan y Weriniaeth yn yr angladd gan ei bod hi eisiau clywed ei lais am y tro olaf ond doedden ni erioed wedi disgwyl y byddai cymaint o aelodau'r côr wedi dod yna i'w chanu."

"Roedd hynny'n beth arbennig iawn."

Gwilym Owen o Fethesda yw'r aelod gyda'r nifer mwyaf o flynyddoedd yn y côr erbyn hyn. Ymunodd o â'r côr yn 1960 ac arferai sefyll yn ymyl Twm yn yr adran fas. Meddai: "Mi fydd bod heb Twm yn golled fawr i mi oherwydd mi fuon ni'n cyd-ganu am lawer iawn o flynyddoedd. Roedd o'n unawdydd ardderchog ac roedd ganddo lais bariton bendigedig."

"Mi fyddaf yn colli ei herian. Roedd o'n gymeriad hoffus ac yn bersonoliaeth arbennig. Roedd o'n ddireidus iawn, fel hogyn ysgol weithiau, ac mi allech weld hynny yn yr edrychiad a roddai pan fyddai rhywbeth anghyffredin wedi digwydd."

Mae Owain Arwel Davies yn arwain y côr ers degawd a meddai: "Roedd ei bersonoliaeth a'i ffyddlondeb i'r côr yn golygu llawer i ni a salwch oedd yr unig beth a'i cadwai draw."

"Roedd o'n ysbrydoliaeth i'r aelodau ieuengaf ac roedd llawer ohonyn nhw, hyd yn oed y rhai 17 oed, eisiau troi allan i ganu yn ei angladd." "Mi fyddwn i'n herio unrhyw un i guro ei record o 64 mlynedd gyda'r côr."

"Mi fydd Twm yn y côr am byth. Dwi'n gwybod ei fod wedi'n gadael ni ond dwi ddim yn credu y bydd ei ysbryd yn gadael byth. Bydd yr atgof am un a ddangosodd y fath ymroddiad gyda ni trwy gydol yr amser."

"Doedd dim digon o le yn yr amlosgfa," meddai Arwel wrth ddwyn angladd Twm i gof. Mae gynnon ni tua 65 o aelodau a daeth hanner cant ohonon ni i ganu yn y gwasanaeth. Roedd y cyfan yn emosiynol iawn."

Ymhlith ei berfformiadau niferus gyda'r côr bu Twm yn canu yn Neuadd Albert, Llundain a bu hefyd ar daith i'r Almaen. Yn 1983 recordiwyd ef yn canu'r unawd yn Rhyfelgan y Weriniaeth a ffurfiodd y gân honno ran o albwm Canada '83 oedd yn nodi un arall o deithiau tramor y côr.

Perfformiodd Twm gyda'r côr pan agorwyd gwifren wib hiraf y byd yn ei hen weithle yn Chwarel y Penrhyn yn 2013. Mae dolen gyswllt ar youtube i Gôr y Penrhyn yn canu yn seremoni agoriadol y wifren wib yn Chwarel y Penrhyn.

Côr Meibion y Penrhyn

Cadeirydd newydd

Yng nghyfarfod blynyddol y côr a gynhaliwyd yn niwedd Ionawr codwyd Bryn Evans o'r ail denoriaid i swydd cadeirydd y côr am y ddwy flynedd nesaf. Mae'n dilyn Alun Davies i'r swydd ac wrth gymryd y gadair dywedodd Bryn mai anrhydedd fawr yw bod yn gadeirydd ar gôr mor llwyddiannus ac mor hanesyddol â Chôr y Penrhyn. Meddai,

"Bu Alun yn un o'r cadeiryddion hynny sy'n mynd y filltir arall er mwyn y côr ac fe sicrhiodd drwy gyfrwng technoleg fodern fod gwybodaeth am raglen a chyhoeddiadau'r côr yn cyrraedd pawb."

Ychwanegodd, "Bydd hi'n gryn gamp i ddilyn Alun ond drwy lwc rydyn ni'n parhau i gael ei wasanaeth fel cynorthwywr i'r ysgrifennydd a bydd yn dal i anfon negeseuon rheolaidd i'r aelodau fel bo angen."

Cyngherddau

Cynhaliodd gwragedd aelodau'r côr noson i ddathlu Diwrnod Gŵyl y Santes Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru, yn Llanfairfechan ar 24 Ionawr. Bu hon yn noson eithriadol o lwyddiannus ac mae galw mawr am noson debyg eto.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Mae rhaglen lawn o gyngherddau o’n blaenau. Mae un wedi bod yn Henllys o flaen cynulleidfa lawn a byddwn yn cymryd rhan yn agoriad swyddogol Pringles yn Llanfairpwll ddiwedd y mis cyn cynnal cyngerdd arall yng Nghapel Jerusalem gyda chôr merched Seiriol ar Ddydd Gŵyl Dewi. Mae’r tocynnau i honno ar gael am £7 i oedolion a £4 i blant.

Ar 21 Mawrth byddwn yn perfformio gyda Chôr MS Ysbyty Gwynedd yn Neuadd Ogwen – gwyliwch am y tocynnau i’r noson arbennig honno.

Cyffrous

Fel y gŵyr mwyafrif darllenwyr y Llais mae’r trefniadau i ganu gyda band arian mwyaf cyffrous a diddorol y byd yn mynd rhagddynt yn wych. Bydd Band Black Dyke yn perfformio gyda ni yn Feniw Cymru, Llandudno ar 20 Mehefin ac mae’r tocynnau ar gael am £17 ac £20. Brysiwch i’w harchebu da chi neu mi fyddan nhw wedi mynd bob un!

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ddiwedd mis Tachwedd cynhaliwyd Ffair Nadolig flynyddol y gangen yn Neuadd Ogwen gyda Siôn Corn yn bresennol, yn ogystal ag ymgeisydd Seneddol Llafur etholaeth Arfon (Alun Pugh) a chyn aelod seneddol Conwy (Betty Williams). Cafwyd cryn dipyn o hwyl ymo, gyda llu o wobrau raffl a digonedd o gacennau – gan wneud elw sylweddol

Yn ystod mis Rhagfyr, dosbarthwyd cardiau Nadolig i nifer o dai yn yr ardal i ddangos rhai o addewidion y Blaid Lafur, er enghraifft cael gwared o gontractau anheg oriau sero, cynyddu’r isafswm cyflog i £8 yr awr a dileu’r dreth lofft. Yna aeth nifer o’r aelodau i Rali Gogledd Cymru’r Blaid Lafur ung Nghyffordd Llandudno i wrando ar araith rymus ar yr economi gan Neil Kinnock, cyn arweinydd y Blaid Lafur.

Tua diwedd mis Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes, yn bennaf i dderbyn adroddiad am waith y cynghorau a Llywodraeth Cymru, ac i ystyried enwebiadau ar gyfer anfonogion i gynhadledd Plaid Lafur Cymru.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7.30 yr hwyr, 25 Chwefror yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda, a bydd y gangen yn cynnal bore coffi yno ar y dydd Sadwrn olaf ym mis Mawrth (yr 28ain) sef ar ddechrau cyfnod yr etholiad seneddol.

Cymeriadau’r Côr



Fred Buckley

Cyfres yw hon sy’n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Fred Buckley o Dregarth. Cyn ymddeol bu Fred yn gweithio yn Chwarel y Penrhyn am flynyddoedd.

- 1 - Be’ ydy dy enw llawn? Fred Lloyd Buckley.
- 2 - Oed? 80.
- 3 - Lle wyt ti’n byw? Tregarth.
- 4 - Un o le wyt ti’n wreiddiol? - Tregarth.
- 5 - Pa dri pheth fasai’n dy ddisgrifio orau? Mwynhau bywyd / Hapus / Hoffi cwmni.
- 6 - Ers faint wyt ti’n aelod o’r côr Ers 25 mlynedd.
- 7 - Pa lais wyt ti? Ail denor.
- 8 - Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? Ymuno efo ffrindiau ac wedi difaru na faswn i wedi ymuno ynghynt.
- 9 - Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? Gwahoddiad.
- 10 - Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? Rebecca Evans / Rhys Meirion.
- 11 - Beth ydy dy farn di am ganu pop? Dim barn arbennig.
- 12 - Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo’r Côr? Ymweliad cyntaf y côr ag America yn 1993. Ardderchog!
- 13 - Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i’r côr? Bowllo, Garddio a mynd ar wyliau.
- 14 - Oes yna rywbeth faset ti’n hoffi gweld y côr yn ei wneud? Dal ati i deithio.

Hen Luniau o’r Ardal



Dyma lun o Gyngor Plwyf Llandegai ym mis Mawrth 1974



Cwmni Drama Eglwys y Gelli 1970 - 1974

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

Mawrth 14eg
Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm

Ebrill 11eg
Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Canolfan Cefnfaes

**BORE COFFI
CAPEL JERUSALEM**

07 Mawrth 2015

10.00 tan 12,00
Mynediad: £1.00

Neuadd Goffa
Mynydd Llandegai

Dosbarth Zumba

**Pob Nos Fercher
6.00 tan 7.00.**

**DYDDIADUR BOREAU COFFI
2015**

28 Chwefror – Neuadd Ogwen - Plaid Cymru.
07 Mawrth – Cefnfaes – Capel Jerusalem.
21 Mawrth – Neuadd Ogwen - Eisteddfod D. Ogwen.
28 Mawrth – Cefnfaes – Plaid Lafur.
28 Mawrth – Caffi Coed y Brenin – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
18 Ebrill - Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem.
09 Mai – Neuadd Ogwen - Cymorth Cristnogol.
27 Mehefin – Neuadd Ogwen - Eisteddfod D. Ogwen.
12 Medi – Cefnfaes - Eglwys St. Mair a St. Anne, Mynydd Llandygai.
26 Medi – Neuadd Ogwen - Plaid Cymru.
31 Hydref – Neuadd Ogwen - Eisteddfod D. Ogwen.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddarw ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

**PLAID CYMRU
Cangen Dyffryn Ogwen**

Cynhelir

**Cyfarfod
Blynyddol**
am 7.00 o'r gloch
Nos Wener 27 Chwefror
yng Nghefnfaes

**Cyfarfod
Agored**
am 7.30
gyda

Rhun ap Iorwerth A.C
a
Hywel Williams A.S.

**NEUADD OGWEN
BORE COFFI PLAID
CYMRU**

28 Chwefror 2015

10.00 tan 12,00
Mynediad: £1.00

Trefnir gan Gangen Dyffryn Ogwen

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA

GYRFA CHWIST

24 Chwefror
10, 24, 31 Mawrth
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau
nosweithiau difyr

**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA**

**‘LLENWI’R
CW PAN’**

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

MAWRTH/MARCH

NEUADD
OGWEN

1	Gwyl Dewi HOGIAU'R BONC, BONCATHOD ac eraill	2pm	£4/3
5	Ffilm Matinee DOCTOR ZHIVAGO (PG)	2pm	£5
6	Cyngerdd ELEANOR McEVOY	7pm	£12
7	Ffilm Plant THE BOOK OF LIFE (PG)	11am	£3/5
12	Pontio ar y Lôn BETA TESTING gan CIRCUS GEEKS	7.30pm	£10/8
13	Ffilm BOYHOOD (15)	7.00pm	£5
14	MARCHNAD OGWEN	9.30am	am ddim
14	Cyngerdd CALAN	7.30pm	£10/8
17-20	Pontio ar y Lôn CROUCH, TOUCH, PAUSE, ENGAGE	7.30am	£14/12/8
21	MARCHNAD PESDA	9.30am	am ddim
21	Cyngerdd Elusenol AMASING, CORY Y PENRHYN ac eraill	7.00pm	£8
25	Pontio ar y Lôn THE HARRI-PARRIS: THE BIG DAY	7.30pm	£12/10
26	Ffilm Matinee RIO BRAVO (PG)	2pm	£5
28	Pontio ar y Lôn WHATEVER THE WEATHER	11am/2pm	£3/5
31	Pontio ar y Lôn PUMP CYNNIG I GYMRO	7.30pm	£10/8

www.neuaddogwen.com

GIGS THEATR FFILM PLANT BAR/BWYD GWEITHDAI CELF

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11-12, 2il Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen, Neuadd Ogwen
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Cyrsiau Iaith yn Neuadd Ogwen
Rydym yn casglu enwau i gynnal cyrsiau WLPAN yn Neuadd Ogwen i ddechrau diwedd Ionawr 2015. Os ydych yn adnabod unrhyw ddarpar ddysgwyr, mae cyfle iddynt gofrestru yn Siop Ogwen neu yn Neuadd Ogwen.
Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

GOFALAETH FRO'R LLECHEN LAS

Cyfarfod Sefydlu
Y Parchedig John Pritchard
yn weinidog ar
Eglwysi yr Annibynwyr
Bethlehem Talybont a Charmel Llanllechid

**yng Nghapel Carmel
am 5 o'r gloch nos Sul, 22 Mawrth 2015**

Llywydd: Y Parchedig Geraint S. R. Hughes
CROESO CYNNES I BAWB

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 9 Mawrth 2015 am 7.00 o'r gloch
yn Festri Jerusalem

**Darlith Goffa Rhiannon Rowlands
Dyffryn Ogwen a'r Rhyfel Mawr**
Dr John Elwyn Hughes

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

Gorymdaith Dydd Gŵyl Ddewi Dyffryn Ogwen

Dôl Goch i Feddygfa Bethesda
ar hyd Lôn Las Ogwen

Dydd Sul, 1af Mawrth

Gorymdaith i ddechrau am 1.30 gyda chyngerdd i ddilyn yn
Neuadd Ogwen am 2.30

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Siop Ogwen:

For more information contact:

partneriaeth@ogwen.org

01248 602131

Trefnir y digwyddiad mewn partneriaeth rhwng Cyngor Cymuned Bethesda a Phartneriaeth Ogwen



Nos Sadwrn, 21 Mawrth am 7.00 o'r gloch

Cyngerdd Elusennol yn Neuadd Ogwen

er budd Cymdeithas
Multiple Sclerosis
Cangen Gwynedd a Môn

Côr MS 'AMaSing'
Côr Meibion y Penrhyn
Kate Griffiths (Soprano)
Kathy Hampson (soddgrwth)

Tocynnau ar gael yn
Siop Partneriaeth Ogwen am £8.00

Côr y Penrhyn
In cyflwyno
Cyngerdd Gŵyl Ddewi
ynghyd â
Côr Seiriol a John Ogwen



Capel Jerusalem, Bethesda
Nos Sul, Mawrth 1af 2015 7.00pm
Tocynnau gan aelodau'r côr, Siop Ogwen
neu ar y drws.
E-Bost: corypenrhyn@gmail.com
Tocynnau: £7.00 i oedolion
£4.00 i blant ysgol

Pesda Roc
Yn Cyflwyno



**STEVE
EAVES
BLODAU
GWYLLTION**

NOS SADWRN 28.2.15 7.30PM £10
NEUADD OGWEN, BETHESDA
Tocynnau ar gael o Siop Ogwen a
www.neuaddogwen.com

THEATR BARA CAWS YN CYFLWYNO 'PUM CYNNIG I GYMRO' – addasiad Dyfan Roberts o lyfr John Elwyn Jones

"Safwn ar y Bont Fawr yn Nolgellau, a'm llygaid yn gwleda ar harddwch dihafal y fro...". Dyna frawddeg olaf y nofel hunangofiannol 'PUM CYNNIG I GYMRO' gan John Elwyn Jones wrth iddo gyrraedd yn ôl i'w dref hoff o wersylloedd carchar yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd – ar ôl ceisio dianc bum gwaith!! John Elwyn, mab ffarm tlawd a adawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg. Ychydig a wyddai wrth ymuno â'r fyddin chwe mis cyn y rhyfel y byddai ei lwybrau anturus yn mynd a fo ar draws yr Ewrop Natsiaidd, o frwydrau gwaedlyd Ffrainc i lethrau Tsieciolofacia, diffeithwch oer Gwlad Pwyl a chael ei ddwyn yng nghrombil llong i Sweden a rhyddid!! Mae ei lyfr yn llawn cyffro, hapusrwydd a thrasiedi, ac yn dyst i allu anhygoel John Elwyn i ddweud stori afaelgar yn ei eiriau ei hun.

Yr actor a'r awdur Dyfan Roberts fydd yn portreadu'r John Elwyn hŷn ar lwyfan. Yn ymuno â Dyfan ar y llwyfan fydd Meilir Rhys Williams, yr actor ifanc o Lanuwchllyn, gan bortreadu'r 'arwr' yn ei ieuenctid. Mae Dyfan, sydd yn un o sefydlwyr Bara Caws yn ôl yn 1976, yn falch o gael dod yn ôl i weithio gyda Bara Caws unwaith eto. Dyma'r tro cyntaf i Meilir Rhys weithio gyda'r cwmni.

Am fwy o fanylion o'r daith ewch i wefan Bara Caws – www.theatrabaracaws.com neu ffoniwch Linda/Mari 01286 676335.

Bydd perfformiad yn Neuadd Ogwen ar nos Fawrth, 31 Mawrth.

Tocynnau : Swyddfa Docynnau Pontio - 01246 382828.

Croesair Chwefror 2015

AR DRAWS

- 1 Yn ddiarhebol, y llestri hyn sy’n gwneud y sŵn a’r twrw mwyaf (8)
- 5 Un o gelfi’r chwarelwr gynt (4)
- 8 Hwyrach, ond nid yn hwyr ! (6)
- 9 Alaw (4)
- 10 Cownter y dafarn (3)
- 12 Heb salwch (3)
- 13 Llogwyr di-glem, ar ôl dechrau prynu, yn trafod beth i’w wneud nesaf (7)
- 15 Llai na’r mymryn lleiaf (3)
- 17 Rhyfedd, traeth ynghanol dinas yng Ngwynedd (5)
- 18 Tanwydd (3)
- 19 Dychryn (7)
- 20 ‘--- 2016’, gemau Olympaidd (3)
- 22 Mynd ymlaen ac yn ôl i gael cusan (3)
- 24 “-- -- Efe i’th droed lithro, ac ni hunady geidwad...” (Salm) (2,2)
- 25 Mwy na 15 Ar Draws – ond dim llawer chwaith (6)
- 27 Cydymffurfio, bod yn ---- i’r gyfraith (4)
- 28 Hel yn yr oedfa, neu cael sêd gyfan ar ôl hel (8)

I LAWR

- 1 Anfon blog chwithig rownd y byd (4)
- 2 Enw merch (5)
- 3 Maent yn edrych ar ôl plant yn absenoldeb eu rhieni (10)
- 4 Ei fŵr yw ein ffin (3)
- 6 Cig mân (7)
- 7 Dramodwyr, beirdd, nofelwyr ac ati (8)
- 11 Sanctaidd (10)
- 13 Gwthio’n fgythiol (5)
- 14 I gyflawni gwahanol gyfrifoldebau llywodraeth (8)
- 16 Prynu a gwerthu (7)
- 21 Mynd y ffordd arall, fel rhai yn nameg y Samariad Trugarog (5)
- 23 Dresel (4)
- 26 Awel, fel yr un a ddeisyfai Cynan o Garn Fadryn bell (‘Hwiangerddi’) (3)

ATEBION CROESAIR IONAWR 2015

AR DRAWS 1 Bargen, 4 Ffesant, 7 Dynladdiad, 9 Gwin, 10 Diod, 11 Parot, 13 Solfach, 14 Neidio, 15 Castell, 17 Afonig, 19 Lleoli, 20 Deon, 22 Coffa, 23 Dirwestol, 24 Nefoedd, 25 Alawon

I LAWR 1 Bregus, 2 Gwyn, 3 Nel Fach, 4 Ffyddlon, 5 Stad, 6 Tendio, 7 Diflastod, 8 Dirdynol, 11 Padell, 12 Teifi, 15 Cyd-ddyn, 16 Llechwedd, 17 Alas(g/k/c)a, 18 Graean, 21 Nico, 22 Coma

Ychydig iawn o gamgymeriadau a gafwyd y tro hwn, sef ‘tendro’ yn lle ‘tendio’ a ‘niro’ yn lle’r ateb cywir ‘nico’. Gwelwch fy mod yn derbyn yn gywir y tri fersiwn o enw’r dalaith yn 17 I Lawr.

Y canlynol anfonodd atebion hollol gywir : Gwilym D. Evans, Niwbwrch; Donna Coleby, Penwortham; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Rita Bullock, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Ellen G. Whitehouse, Birmingham; Dafydd Evans, Penisarwaun; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Sara a Gareth Oliver, Tregarth; Myfanwy Jones, Gaerwen; Doris Shaw, Bangor; E. E. Roberts, Llanberis; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Jean Vaughan Jones, Derek a Mai Jones, Rhiwlas; Jean Hughes, Talybont; Gaynor Elis-Williams, Carneddi.

Ond â’r clod a’r wobr y mis hwn i Dilys A. Pritchard- Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli LL53 6YP. Llongyfarchiadau i chi.

1		2		3		4			5	6		7
		8							9			
10								11				
		12				13						
14												
15		16		17						18		
19								20		21		
										22		23
24						25	26					
27						28						

Atebion erbyn 3 Mawrth i ‘Croesair Chwefror’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

CHWILAIR CHWEFROR 2015

BLODAU

A	A	W	F	H	L	A	F	A	N	T	R	I	E	J	L	C	M	B	V
B	H	B	X	J	U	I	P	A	B	I	C	Y	M	R	E	I	G	S	V
S	H	E	L	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D
L	D	R	N	O	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	G
L	R	H	H	C	D	B	A	F	R	H	E	N	W	R	U	M	W	N	O
Y	Y	S	R	O	I	Y	A	S	C	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	R
G	H	R	C	Q	S	H	N	A	W	E	H	O	Y	D	E	E	G	E	O
A	M	O	H	E	P	Y	F	Y	T	T	R	C	Y	B	B	C	U	U	J
D	P	G	L	T	M	N	N	I	M	E	V	L	V	D	C	B	B	F	R
Y	F	Y	O	G	E	J	V	Y	P	E	D	I	I	R	R	X	I	M	H
D	T	N	T	W	O	S	K	M	M	E	N	O	P	W	R	C	M	K	C
Y	B	E	I	O	R	C	W	X	A	Y	V	Y	R	Y	H	S	T	M	R
D	E	L	F	Y	J	S	D	W	Z	H	N	B	N	C	W	O	S	C	R
D	I	L	A	I	Y	X	I	N	I	L	X	Y	J	J	M	B	W	T	E
L	X	A	M	L	D	R	X	K	F	U	P	C	D	Q	Y	O	I	L	F
E	R	G	A	Z	A	Q	R	O	C	T	D	G	W	D	S	L	Z	E	B
E	A	S	J	M	K	L	L	Y	C	I	N	R	O	C	N	A	P	A	C
J	C	Y	L	N	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J
Q	U	L	F	S	G	R	U	G	M	E	L	V	T	X	E	U	G	H	S
L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D

Yn y chwilair mis yma mae deuddeg BLODYN neu BLANHIGYN. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi wddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ac yn y blaen yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn Mawrth 3ydd . Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd neb wedi canfod y deuddeg, yna’r nifer agosaf fydd yn cael y wobr.

Mae enw deuddeg blodyn neu planhigyn yn ymddangos yn y chwilair y mis yma. Fe gawsoch hwyl gyda’r testun mis diwethaf, felly daliwch ati.

Dyma atebion Ionawr. Abaty Deur (Abbey Dore); Bryste (Bristol); Caer (Chester); Caergrawnt (Cambridge); Caerloyw (Gloster); Caerwysg (Exeter); Caint (Kent); Croesoswallt Oswestry); Dyfnant (Devon); Penbedw Birkinhead); Stryd y Fflyd (Fleet Street).

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion cywir. Rosemary Williams, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Doris Shaw, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Myfanwy Jones, Gaerwen; Marilyn Jones, Glanffrydlas Bethesda; Gareth a Sara Oliver, Tregarth; Dilys A Pritchard-Jones, Abererch, Pwllheli.

Enillydd Ionawr oedd Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda.

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Coleg Rhydychen

Llongyfarchiadau mawr iawn i ddau fyfyrwr o'r 6ed Dosbarth sydd wedi cael cynnig lle yn Rhydychen. Mae Bethan Hughes wedi cael cynnig lle yng Ngholeg Merton i astudio Saesneg, a Gwynfor Rowlinson wedi cael cynnig lle yng Ngholeg yr Iesu i astudio Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg. Gwynfor ydi'r drtdedd genhedlaeth o'r teulu i ennill lle yn Rhydychen – yn dilyn ei dad Paul a'i nain a'i daid cyn hynny.

Ddwy flynedd yn ôl mi gafodd Henri Williams ei dderbyn i astudio Mathemateg yng Ngholeg yr Iesu. Pan mae rhywun yn cofio mai llond llaw o ddisgyblion drwy Ogledd Cymru sy'n cael eu derbyn bob blwyddyn i Gaergrawnt a Rhydychen – mae Bethan a Gwynfor wedi cyflawni dipyn o gamp, ac mae'n glod i'r addysg y maent wedi ei dderbyn yn Ysgol Dyffryn Ogwen a chyn hynny yn Ysgol Llanllechid.



Gwynfor Rowlinson a Bethan Hughes

Gwobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid



Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol: Katie Humphreys, Ceri Ellen Speddy, Lois Ashton a Shannon Williams, sydd wedi cael eu enwebu ar gyfer gwobr mewn seremoni Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yng Nghaerdydd ym mis Chwefror. Mae'r pedair wedi cael eu enwebu am greu 'app' cyfrifiadurol o dan y categori 'Prosiect eithriadol mewn ysgol' Pob lwc genod!

Ymweliad ag Auschwitz

Mae Sioned a finna'n ddisgyblion Chweched Dosbarth a rydym yn cael cyfle i fynd i wersyll crynhoi Auschwitz Birkenau yng Ngwlad Pwyl. Trefnir yr ymweliad gan yr 'Holocaust Trust' a phob blwyddyn mae cyfle i ddau ddisgybl o'r rhan fwyaf o ysgolion Cymru gael ymuno a'r daith. Mae'r ymweliad yn arbennig ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb yn y cyfnod hwn o hanes a mae Sioned a finna'n astudio uned waith ar yr Almaen Natsiaidd 1933-1939 ar gyfer ein arholiad lefel A. Fel rhan o'r uned rydym wedi trafod a dysgu am y gweithredoedd gwrth-Semitiaeth a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwn.

Cyn yr ymweliad â Gwlad Pwyl, bydd gofyn i ni deithio i Gaerdydd, i gymryd rhan mewn seminar i ddysgu am y gwerysll ac i gael manylion y daith. Cawn hefyd gyfle i gyfarfod â goroeswr o'r gwerysll. Mae hi'n ffraind cael ein dewis i gymryd rhan yn yr ymweliad. Bydd yn brofiad bythgofiadwy i ni yn enwedig oherwydd mai ar Ionawr 27 eleni bydd y byd yn dathlu 70 mlynedd ers i'r holl garcharorion, yr Iddewon, hoywon, pobl ag anableddau, unrhyw un oedd yn wahanol, gael eu rhyddhau.

Alys Haf



Alys Haf a Sioned Carran

Adran Addysg Gorfforol

Canlyniad tîm rygbi dan 14 (rownd 32 olaf Cwpan Cymru) YDO 31 - 15 Ysgol Llanfyllin. Ceisiadau gan Mathew Buchanan, Kieran Briggs x3, Dafydd Williams. Ben Williams yn troi 3 cic. Bydd y tîm nawr yn chwarae yn rownd 16 olaf Cymru.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Rhiannon Llwyd sydd wedi pasio gradd 8 ar yr obo gyda chlod!

Ysgoloriaeth Cymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd



Dyma Adam Hughes, cyn ddisgybl yn yr ysgol, yn derbyn yr ysgoloriaeth gan y Barnwr Merfyn Hughes yn y Llys Sirol yng Nghaerdydd. Enillodd Adam yr ysgoloriaeth ar sail ei ganlyniadau lefel A, ac mae bellach yn astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dymuna Llais Ogwan, a'r ardal gyfan, longyfarch staff, disgyblion a rhieni Ysgol Dyffryn Ogwen, yr unig ysgol uwchradd yng Ngwynedd a Môn i gael ei gosod yng nghategori gwyrdd Llywodraeth Cymru, sy'n golygu ei bod yn perfformio gyda rhagoriaeth. Llongyfarchiadau mawr.

Ysgol Tregarth

Cystadleuaeth Gymnasteg Yr Urdd

Yn ddiweddar, bu pump o enethod yr ysgol yn cystadadlu yng ngystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd. Bu Tanwen, Issy, a Catrin yn cystadlu yn unigol . Perfformiodd y dair yn arbennig o dda. Yn ogystal, roedd Mika a Ffion yn cystadlu fel pâr yn erbyn 4 o barau eraill o Eryri gyfan. Cafwyd perfformiad gwych ac unigryw gan y ddwy a doedd dim amheuaeth gan neb mai dyma’r ddwy oedd yn llawn haeddiannol o ddod i’r brig. Llongyfarchiadau mawr i’r ddwy ar eu llwyddiant ysgubol. Bydd y ddwy yn cynrychioli Eryri yn Aberystwyth ar Chwefror 11eg.

Tîm Pêl Rwyd

Bu ymdrech dda gan dîm pêl rwyd yr ysgol a fu’n cystadlu yn ddiweddar yng nghystadleuaeth yr Urdd, Sir Eryri yng Nghaernarfon. Ar ôl wythnosau o ymarfer a gwaith caled perfformiodd y tîm yn arbennig o dda yn ystod y cystadlaethau. Da iawn chi!

Prynhawn agored

Cafwyd prynhawn agored ar Ionawr 23ain i’r disgyblion sydd yn bwriadu cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi. Roedd yn gyfle anffurfiol i gael cyfarfod â’r disgyblion a’u rhieni a chychwyn dod i’w hadnabod. Cofiwch bod croeso i’ch plentyn gofrestru er mwyn cychwyn yn y Dosbarth Meithrin ym mis Medi, cysylltwch â’r ysgol os am dderbyn mwy o fanylion.

Ymweliad Addysgol Mynydd Gwefru

Thema dosbarth Ogwen yr hanner tymor yma yw Ynni, ac fel rhan or gwaith diddorol yma cafodd y dosbarth ymweld â’r Mynydd Gwefru yn Llanberis. Cafodd y disgyblion wylïo fideo ffeithiol am drydan a dysgu sut mae ynni hydro yn cael eu greu yno, cyn mynd ar daith tanddaearol wfreiddiol.

Ysgol Abercaseg

Ymweliad PC Meirion William

Cafodd disgyblion yr ysgol sgwrs ddiddorol iawn gyda PC Meirion William yn ddiweddar am bethau sy’n dderbyniol ac yn annerbyniol yn amgylchedd yr ysgol a’r gymuned. Braff oedd eu gweld yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i’w gwestiynau. Diolch yn fawr iawn iddo am alw draw i ymweld â’r plant.



Plant blwyddyn 2 yn awyddus i ateb cwestiynau PC Williams.

Hwyaden Fach Hyll

Ar fore oer yn ystod mis Ionawr, cawsom ein diddanu gan Theatr Genedlaethol Cymru yn Neuadd Ogwen. Cafodd y disgyblion gyfle i wylïo sioe’r ‘Hwyaden Fach Hyll’ gan ymuno â’r hwyaden fach ar ei thaith gyffrous drwy’r tymhorau. Cawsant gyfle i gyfarfod â llu o ffrindiau buarth y fferm wrth i’r hwyaden fach ddod o hyd i’w gwir chartref. Mwynhaodd pawb y diweddglö hapus i’r stori!

Nofio

Unwaith eto eleni bu disgyblion Blwyddyn 2 yn mwynhau sawl gwers hwyliog o ddysgu nofio dan arweiniad y criw hyfforddi ym mhwl

nofio Bangor. Yn ôl yr hanes, mi fydd nifer helaeth o’r disgyblion yn nofio fel pysgod erbyn diwedd eu cyfnod yn y pwll. Da iawn chi a daliwch ati i nofio!

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Siân Hughes ar gael ei phenodi fel gofalwraig newydd ein hysgol. Pob hwyl i chwi yn eich swydd newydd a chroeso cynnes atom!

Clybiau

Braff yw gweld bod y clybiau ar ôl ysgol eleni mor boblogaidd â rhai’r llynedd. Ers ddechrau mis Ionawr bu cyfle i ddisgyblion blwyddyn 1 a’u rhieni fynychu clwb Technoleg Gwybodaeth er mwyn ymgysgu â’r Appiau addysgol diweddaraf sy’n cael eu defnyddio’n ddyddiol yn yr ysgol. Hefyd, mae clwb drama ar gyfer disgyblion blwyddyn 2 sy’n rhoi cyfle gwych iddynt actio a dangos eu doniau ar y llwyfan. Edrychwn ymlaen at gael gweld eu perfformiad ar ddiwedd y tymor.



Heulwen a Lowri’n mwynhau dysgu yn yr eira mawr!

Ysgol Llanllechid

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i Ms Lynne Ellis ar ei dyweddiad gyda Mathew Parry.

Yr Hwyaden Fach Hyll!

Aeth holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen i Neuadd Ogwen i wylïo perfformiad o’r ‘Hwyaden Fach Hyll’. Mor braff oedd y croeso yn Neuadd Ogwen, gyda gofod arbennig i’r plant gael eistedd yn agos at yr actorion, a chael eu gweld yn canu amrywiol offerynnau cerdd, ac ymateb i’r lliwiau a’r cysgodion ar y waliau oedd yn creu awyrgylch y gwahanol dymhorau. Roedd y stori’n apelio’n fawr, a’r actorion yn hudo’r plant i fyd ffantasi. Roedd pob plentyn wedi ei swyno, ac yn canolbwyntio’n llwyr! Mae’n fendigedig cael cyfle i weld perfformiad fel hyn yn ein neuadd leol. Diolch, Neuadd Ogwen!

Y Celtiaid

Er ei bod hi’n diwrnod rhylllyd, cafodd Bl 3 fodd i fyw mewn gweithdai Celtaidd yn Wrecsam! Y gwir amdani yw mai nhw oedd y Celtiaid, a chawsant fynd yn ôl mewn peiriant amser i fyw a phrofi bywyd fel yr oedd hi yn ystod oes yr hen Geltiaid!

Gweld Celf y Byd

Bu Bl6 yn Lerpwl yn edrych a rhyfeddu at waith celf Ewropeaidd drwy’r oesoedd, yng Ngaleri Walker, yn ogystal â gweld celfyddyd o bob cyfandir yn Amgueddfa’r Byd. Dywedodd Esme: “Roedd yn anhygoel gweld y lluniau hyfryd a chlywed am eu hanes, yn ogystal â dysgu sgiliau darlunio.” Ychwanegodd Emma: “Mwynheais ddarlunio arteffactau hynod oedd wedi eu llunio ar draws y byd ac roedd o’n ddiwrnod i’w gofio!”

Santes Dwynwen

Roedd yr ysgol yn fôr o goch a phinc, swsus yn cael eu chwythu i bob cyfeiriad, a chardiau cywrain cariadus yn cael eu hanfon yn y dirgel!

Roedd hwyl fawr yn yr ysgol ar ddiwrnod Santes y Cariadon, a phawb yn mwynhau clywed y chwedl ardderchog yn cael ei hadrodd unwaith eto.

Archarwyr

Cafodd plant dosbarth Mrs Marian Jones ‘Ddiwrnod Archarwyr’ yn ddiweddar, pan oedd pob un wedi gwisgo fel ei hoff archarwr neu gymeriad o stori’r archarwyr. Cafwyd cryn amrywiaeth o Superman i’r Hyle heb son am gymeriadau gwreiddiol Mrs Marian Jones: Pry Cry, Gwibnain, Ceri a Huw, Cen Dau Ben ynghyd â chymeriadau hoffus Llyfr Mawr y Plant.

Post Rachub

Aeth plant dosbarth Mrs Marian Jones am dro i’r post yn Rachub, ar ol bod wrthi’n ddygn yn cyfansoddi llythyron er mwyn eu postio i’w rhieni. Cafodd yr rhieni syrpreis hyfryd y bore canlynol! Diolch i Mr Ian Scott am ei gymorth parod pob amser.

Anrheg o’r India

Cafwyd syrpreis braf ar y diwrnod cyntaf ar ôl dychwelyd i’r ysgol wrth dderbyn pecyn o’r India. Ynddo roedd sgarffiau gwlan wedi ei gwehyddu’n gyda phatrymau cain fel anrheg o’n hysgol bartner newydd yn India. Mae ein cyfeillion fel ninnau yn byw yn uchel yn y mynyddoedd. Rydym yn dysgu mwy amdanynt bob dydd, yn cysylltu a nhw yn aml a chael holi a dysgu am adeiladau diddorol fel y Taj Mahal.

Te Bach Cymreig

Cafodd plant dosbarth Rona Williams hwyl fawr yn paratoi te bach Cymreig,- llestri gorau, te blasus a phawb wedi bod wrthi’n creu y cacennau cri. Roedd yr arogl yn y dosbarth yn tynnu dŵr o’r dannedd!

Parti Pyjamas

Daeth plant y dosbarth Meithrin i’r ysgol yn gwisgo eu dillad nos, gan afael yn sownd yn eu hoff dedi, fel rhan o’u thema. Cafwyd amser bendigedig a llwyddwyd i ddysgu hwiangerddi a chaneuon i suo’r teganau medal i gysgu’n sownd!

Gweriniaeth Siec

Braint oedd croesawu ymwelwyr o Weriniaeth Siec atom i edrych ar arferion da yn ein Cyfnod Sylfaen. Roeddent wedi gwirioni gyda’r holl waith celf a byddwn yn postio bwndel o enghreifftiau i’r Weriniaeth yn fuan er mwyn iddynt gael arddangos ymdrechion plant bach Dyffryn Ogwen mewn Oriel Mên.

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 3 a Mrs Bethan Jones ar ennill gwobrau anhygoel o hamperi bwydydd iach gan Tesco Caernaerfon. Bu’r disgyblion wrthi’n ddyfal yn creu gwaith Celf ac roeddent wedi gwirioni’n lân pan glywsant mai nhw oedd yn fuddugol! Da iawn chi!

Ysgol Pen-y-bryn

Achub y Plant



Daeth pawb yn eu siwmperi Nadoligaidd er mwyn casglu arian at Achub y Plant - roeddech ddigon o sioe!! Casglwyd swm anhygoel o £104.93. A digwydd bod y diwrnod hwn oedd diwrnod ein cinio Nadolig a braf oedd gweld llond neuadd o siwmperi amryliw a Nadoligaidd. Diolch o galon i Anti Sandra a merched gegin am ginio gwerth chweil eto eleni.

Plant Pesda

Yn ystod y tymor hwn, bu Grŵp Effeithiolrwydd yr ysgol, Plant Pesda, yn cynllunio a chreu adnoddau rhifedd gweithgdrefnol ac ymresymu ar gyfer pob dosbarth. Yna ym mis Rhagfyr buont yn addysgu pob dosbarth gyda’r adnoddau hyn. Profodd y cyfan yn llwyddiant ysgubol gyda’r plant yn datblygu sgiliau allweddol a defnyddiol i’w helpu gyda gweithgareddau o’r fath ac ar gyfer y Profion Cenedlaethol. Da iawn Plant Pesda. Ymlaen â ni at y prosiect nesaf rwan!

Ffair Nadolig

Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus dros ben ar Ragfyr 10fed a drefnwyd gan y Cyfeillion. Ar gyfer y noson, bu plant yr ysgol yn brysur yn cynllunio, creu, coginio a phrisio eu cynnyrch Nadoligaidd er

mwyn ei werthu a gwneud elw. Hefyd, roedd yna stondin gacennau, tombola, 'bric-a-brac', raffl a phaned a mins pei gan Anti Sandra. Diolch o galon i bawb a ddaeth i helpu, diolch i bawb am eu cyfraniadau hael, diolch i'r plant am eu gwaith caled a diolch i chi rieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth. Gwnaethpwyd elw o £1034.11, sy’swm anhygoel!!

Cyngerdd Nadolig

Ar Ragfyr 18fed, cafwyd cyngerdd Nadolig hynod lwyddiannus yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Enw’r cyngerdd oedd ‘Canrif o Ddathlu’ a oedd yn edrych ar ddathliadau’r Cymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd a’r chwedegau ac i glymu’r cyfan cafwyd stori’r geni gan blant dosbarth Tryfan. Diolch o galon i bawb a ddaeth a diolch yn fawr i staff Ysgol Dyffryn Ogwen am gael defnyddio’r neuadd a’r adnoddau.

Panto!

I goroni tymor prysur a gweithgar, cafodd holl blant yr ysgol fynd i Neuadd Ogwen i weld y panto Patagonia gan y cwmni Mega. roedd yn gynhyrchiad gwych gyda phlant a staff yn mwynhau’n arw. Difyr oedd dysgu am hanes y Mimosa a thaith y Cymry i Batagonia a braf oedd gweld Neuadd Ogwen ar ei newydd-wedd; trawiadol a dweud y lleiaf.

Oriel Môn

Cyn cau am wyliau’r Nadolig cafodd plant Dosbarth Carnedd ymweld ag Oriel Môn. Cawsom groeso gan Annwen (Burgess gynt) ac yna aeth ymlaen i ddangos portreadau sy’n cael eu harddangos yn yr Oriel. Yn eu plith roedd Y Co Bach- cymeriad doniol a difyr iawn o Gaernarfon, a Peter Prendergast a Syr Kyffin Williams – dau o artistiaid enwog Cymru a dau a fu ar ymweliad i Ysgol Penybryn yn y gorffennol. Bu Annwen yn trafod y portreadau mewn modd difyr iawn gan sôn am y gwahanol dechnegau sy’n cael eu defnyddio gan artistiaid. Yna cafodd y plant gyfle i wneud portreadau o’u gilydd mewn siarcol a chafwyd

Ysgol Rhiwlas

Ymweliadau

Daeth yr heddlu i’r ysgol i wneud gwaith gyda plant blwyddyn 1-4 ganol y mis. Dysgwyd llawer ganddynt. Aeth plant cyfnod Sylfaen ar drip i neuadd Ogwen i weld sioe Hwyaen Fach Hyll. Mwynhaodd y plant i gyd yn fawr.

Cystadlu

Bu Gwen Williams a Seren Jones yn cystadlu yng nghystadleuaeth gymnasteg Urdd Eryri yn ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Er na chawsant lwc y tro yma, mi wnaeth y ddwy eu gorau mewn cystadleuaeth frwd ac anodd iawn.

Chwarae ac Iaith.

Mae sesiynnau chwarae ac iaith wedi dechrau yn yr ysgol pop pnawn Llun ar gyfer rhieni a phlant dan 3 oed. Mae croeso i chi ymuno a nhw yn neuadd yr ysgol am hwyl a sbri.

Cymdeithas Ffrindiau’r Ysgol

Mae’r gymdeithas yn mynd o nerth ac aml i ddigwyddiad wedi cymeryd lle dros y misoedd diwethaf gan gynnwys Ffair Nadolig lwyddianus iawn. Maent ar hyn o bryd wrthi’n trefnu ffair Wanwyn fydd yn cael ei chynnal yn yr ysgol fore Sadwrn y 7fed o Fawrth rhwng 11.30 ac 1.00 y prynhawn. Bydd llawer o stondinau, cawl, cacennau a mwy ar gael. Dewch yn llw i gefnogi yr ysgol.

Ysgol Bodfeurig

Ymwelwyr

Yn ystod y mis diwethaf mae wedi bod yn braf cael croesawu ymwelwyr i’r ysgol. Daeth cynrychiolwyr o’r heddlu, y gwasanaeth tân ac o gynllun Ysgolion Carbon Isel Cyngor Gwynedd i siarad gyda ni. Diolch i bob un ohonynt am eu sgwrs werthfawr.

Ymweliad ag Eglwys y Gelli

Fel rhan o’u gwaith ar y thema ‘Enfys Trydan’ aeth dosbarth Tryfan ar ymweliad i Eglwys y Gelli i edrych ar y ffenestri lliw yno. Cafodd pawb brynhawn gwych yn dysgu mwy am yr eglwys ac am y straeon y tu ôl i’r ffenestri lliw. Diolch i bawb yn yr eglwys am eu croeso.

Ymweliad â Tesco

Bu dosbarth Idwal am ymweliad â Tesco yn ddiweddar. Roedd yr ymweliad yn rhan o’u gwaith am fwyd. Cafodd pawb amser grêt yn dysgu am fwydydd o wahanol wledydd yn ogystal â chyfle i goginio ac i ymweld â llawer o wahanol rannau o’r siop.

Ysgol Bodfeurig (parhad)



Ymweliad â Tesco



Ymweliad ag Eglwys y Gelli

Collwyd yn y Rhyfel Mawr
Ganrif i'r mis hwn

Mae coffâd isod ym mynwent gyhoeddus
Coetmor, Bethesda.

ER COF
am
T. H. PARRY 48505
a fu farw
12-02-1915
yn 28 mlwydd oed
Aelod o'r Cor Corfflu Meddygol y Fyddin
Brenhinol (RAMC)

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod
telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, 25 Chwefror am 7
o'r gloch yn
Festri Capel Carmel

Dewch i drafod, ac i ddangos lluniau o
waith llechi traddodiadol yr ardal -
rhai syml a defnyddiol, neu
addurniedig a chywrain!

S4C

DNA  Cymru

8.00

1 Mawrth

Pwy yw'r Cymry? Edrych
yn ôl drwy'r canrifoedd er
mwyn deall ein gorffennol
a'n presennol.

s4c.co.uk

Am ragor o wybodaeth ewch i s4c.co.uk/cymrudnawales

 **Clic**  



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

**Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**

**Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd**

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794


Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Chwaraeon

Bowlio



Yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd yn y clwb lleol, etholwyd Dilwyn Owen, Erw Las, yn llywydd Cymdeithas Fowlio Gwynedd. O ran bowlio mae Gwynedd yn cynnwys hen Sir Fôn, Sir Feirionydd a Sir Gaernarfon.

Dechreuodd Dilwyn fowlio yn naw oed gan gael y cyfle i chwarae ar lawnt Llanfairfechan gyda llu o ymwelwyr a oedd ar eu gwyliau. Mae o wedi chwarae i sawl tîm, gan gynnwys Llanfairfechan, Penmaenmawr, Bangor a Bethesda. Bu'n chwarae i dri thîm yn ystod ei amser yn Lerpwl.

Mae Dilwyn yn gobeithio'n arw y bydd llawer mwy yn troi at y gêm, yn hen neu'n ifanc gan fwynhau oriau o bleser yn cerdded, sgwrsio a thynnu coes.

Rygbi

Digon cymysglyd fu canlyniadau'r flwyddyn newydd i'r tîm rygbi. Fu dim llawer o newid yn sefyllfa'r anafiadau er bod Gareth Ogwen Williams yn ôl yn chwarae yn dilyn ei lawdriniaeth.

Ar Sadwrn cyntaf y flwyddyn bu'n rhaid teithio i chwarae't tîm sydd ar ben y tabl – Nant Conwy. Er bod nifer o chwaraewyr heb fod ar gael, cafwyd canlyniad agos iawn a cholli o 3 phwynt yn unig. Gorffennodd y blaenwyr yn gryf iawn a chipiodd Jared Mitchell 2 gais hwyr.

Wythnos yn ddiweddarach rhoddodd Pesda gweir iawn i Ddinbych ar gaeau Dôl Ddafydd. Sgoriwyd 7 cais yn erbyn 1 yn erbyn y tîm sydd mewn perygl o syrthio i Adran 2 ar ddiwedd y tymor.

Buddugoliaeth yn erbyn Dolgellau o 18 pwynt i 10 ar Dôl Ddafydd eto gyda'r ymwelwyr yn brwydro'n galed i ddianc o waelodion y tabl.

Roedd taith i'r Bala yn addo gwaith caletach i'r Howgets ac er rheoli llawer o'r gêm bu'n rhaid ildio o 15 pwynt i 6 yn y diwedd.

Daeth Pwllheli draw i Dôl Ddafydd yn llawn hyder ac yn ail yn y tabl. Roedd hogia' Llŷn wedi ennill yma eisoes ym Mhlât Swalec ac yn y cynghrair ar Barc Bodegroes. Gêm syml iawn oedd un yr ymwelwyr – ennill y bêl a'i chicio hi. Roedd tactegau Bethesda'n wahanol iawn – cadw'r bêl yn y dwylo am funudau ar y tro. Sgoriodd y 2 dîm 2 gais yr un ond llwyddodd Pwllheli i gicio 3 gôl gosb yn eu buddugoliaeth o 23 pwynt i 14.

O ganlyniad i golli'r 2 gêm yma syrthiodd Bethesda o'r 3ydd safle i lawr i'r 6ed. Ond – fel y gwelwch o'r tabl – mae hi'n dynn iawn yn y canol gyda nifer o dimau o safon cyfartal.

Er hynny, mae pethau'n gallu newid yn gyflym iawn ac erbyn i chi ddarllen hyn efallai y bydd y sefyllfa wedi newid yn llwyr!

Tabl Rygbi Mis Chwefror

Tîm	ChwaraeEnnill		Cyfartal Colli		Pwyntiau
Nant Conwy	13	12	0	1	57
Pwllheli	13	11	1	1	49
Yr Wyddgrug	14	8	0	6	39
Y Bala	14	8	1	5	39
Rhuthun	14	8	0	6	39
Bethesda	14	6	1	7	36
Caernarfon	14	5	0	9	31
COBRA	14	6	0	8	29
Llandudno	14	6	0	8	29
Dolgellau	14	3	1	10	20
Dinbych	13	4	0	9	18
Bro Ffestiniog	13	3	0	10	16

Golygydd mis Mawrth fyddTrystan Pritchard, 27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3BD.
07402 373444. Ebost: trystanrpl@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 4 Mawrth, os gwelwch yn dda.

Criced



Dyma lun Sean Buchanan, 19 Bryn Caseg, wedi cael ei gapio am chwarae criced i Gymru o dan un ar ddeg. Mae Sean yn dilyn ei frawd Matthew sydd wedi cael ei gapio eisioes. Mae ei deulu a'r ardal yn falch iawn ohono.

Golff

Golff yn St. Deiniol Cwmpiadau

Ar ôl bod yn chwarae mewn cystadleuaeth bwysig yng Nglwb Golff San Deiniol ym Mangor cafodd dau aelod ac un cyn-aelod ddamweiniau yng nghyffiniau eu cartrefi. Roedd Maldwyn Pritchard o Hen Dyrpeg, Alun Jones o Fraichmelyn a Rhys Llwyd o Dregarth wedi bod yn cymryd rhan ym Mhencampwriaeth Flynyddol tri chlwb Cymdeithas Olffyddol wych y Slics yng nghanol Mis Ionawr. Yn anffodus, wrth nesáu at eu cartrefi baglodd un, cwmpodd y llall a disgynnodd y trydydd. O edrych ar yr amgylchiadau mae'n amlwg bod y tri wedi bod yn hynod o anffodus wrth gerdded ar arwynebedd lithrig neu rewllyd a'u bod wedi cael profiadau cas. Gobeithio fod y tri'n gwella ac na fyddant yn dioddef o sgil-ffeithiau'r cwmpiadau oherwydd byddai hynny'n drychineb gan fod y tri ohonynt yn chwaraewyr golff o safon cymharol uchel. * Ar ôl clywed am anffawd y tri chyfaill aeth Adran Dywydd Llais Ogwan i geisio canfod beth oedd y tywydd mewn gwahanol rannau o'r byd ar y noson dan sylw. Dyma'r canlyniadau:-

Y tebygolrwydd o gwmpiadau:-
De Cymru – Penderyn – 45%
Yr Alban,– Glenlivet – 40%
Iwerddon –Tullamore – 40%
Yn yr ardaloedd canlynol roedd y peryglon yn llawer is:-
Sbaen - Rioja,– 15%
Yr Eidal - Montepulciano,– 14%
Ffrainc - Bordeaux – 13.5%
Yn wyneb y ffeithiau uchod argymhellwn y dylai ein holl ddarllenwyr ddarllen y rhagolygon a chymryd gofal mawr cyn mentro allan yn nhrymder y gaeaf. Ar yr un pryd, hyderwn y bydd y tri chyfaill a enwyd uchod yn holliach cyn hir.

• yn achlysurol ac ar ddiwrnod da.